Ministry of Justice

# Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig

## Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol gan Clare Wade KC

Gorffennaf 2023

CP 872

Ministry of Justice

# Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig

## Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol gan Clare Wade KC

Cyflwynwyd i Senedd y DU
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Gorffennaf 2023

CP 872

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni i'r cyfeiriad canlynol:

Sentencing Team
102 Petty France
London
SW1 9AJ

ISBN 978-1-5286-4355-9

E02945729 07/23

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau wedi’u hailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

**Rhagair** 3

**1. Cyflwyniad** 5
1.1 Yr Achos dros Weithredu 5
1.2 Adeiladu ar Gamau Gweithredu'r Llywodraeth 7
1.3 Y Fframwaith Dedfrydu ar gyfer Llofruddiaeth a Dynladdiad 10
1.4 Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig 12

**2. Ymateb i'r Argymhellion a wnaed gan Clare Wade KC** 15
2.1 Argymhellion Cyffredinol 15
2.2 Argymhellion mewn Perthynas ag Achosion o Lofruddiaeth 17
2.3 Argymhellion mewn Perthynas ag Achosion o Ddynladdiad a'r Canllawiau Dedfrydu 24
2.4 Amddiffyniadau i Lofruddiaeth 26

**3. Ymgynghoriad** 28

**4. Y Camau Nesaf** 30
4.1 Data a Hyfforddiant 30
4.2 Deddfwriaeth i Roi Ystyriaeth Arbenigol i Laddiadau Domestig yn y Fframwaith Dedfrydu 30
4.3 Adolygiad o Amddiffyniadau i Lofruddiaeth 31
4.4 Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Ddiwygio Pellach 31

**5. Tabl o Argymhellion**

**6. Datganiad Cydraddoldeb** 33
6.1 Dyletswydd Cydraddoldeb 33
6.2 Data Cydraddoldeb 33
6.3 Ystyriaethau Cydraddoldeb 37

**Atodiad A: Data Sampl Achos ar Nodweddion Gwarchodedig** 39
Cyd-destun 39
Data ar Nodweddion Gwarchodedig 40

# Rhagair

Lladdiad domestig yw un o'r troseddau mwyaf arswydus y mae ein system cyfiawnder troseddol yn ymdrin ag ef. Dylem deimlo'n fwyaf diogel gyda'r rhai sydd agosaf atom ond, bob blwyddyn, mae tua 90 o bobl - menywod yn bennaf - yn cael eu lladd gan bartner presennol neu gyn-bartner. Mae'r lladdiadau hyn yn distrywio teuluoedd, ac yn gwneud i bobl gwestiynu sut y gallai'r person a ddylai fod wedi gofalu am y dioddefwr fwyaf, ei niweidio a'i ladd. Mae'n ddedfryd oes o'r galar gwaethaf posibl.

Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer dedfrydu llofruddiaeth wedi'i nodi yn Neddf Dedfrydu 2020. Fodd bynnag, nid yw'n cyfeirio o gwbl at laddiadau sy'n ddomestig eu natur. Felly, ymrwymodd y Llywodraeth yn ystod haf 2021 i gynnal adolygiad annibynnol o'r gyfraith, yn benodol sut mae'n berthnasol i achosion lle mae troseddwr yn achosi marwolaeth partner presennol neu gyn-bartner. Oherwydd ei phrofiad yn gweithio ar achosion o laddiadau domestig a throseddau cysylltiedig, gofynasom i Clare Wade KC gynnal yr Adolygiad. Rydym yn ddiolchgar i Clare am ei gwaith ac, ar ôl cyhoeddi ein hymateb interim ym mis Mawrth, mae'r Llywodraeth yn awr yn cyhoeddi'r ymateb hwn.

Mae hwn yn faes cymhleth o'r gyfraith, ond rydym yn cynnig newidiadau a fydd yn rhoi ystyriaeth arbenigol i laddiadau domestig yn y fframwaith ar gyfer dedfrydu llofruddiaeth. Mae hynny'n cynnwys gwneud ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol yn ffactor gwaethygol a lliniarol statudol wrth ddedfrydu. Mae llawer o laddiadau domestig yn benllanw ymgyrchoedd cam-drin domestig lle mae menywod sy'n ddioddefwyr yn dioddef patrymau ymddygiad treisgar, creulon a gorfodaethol a gynlluniwyd i ennill grym a rheolaeth drostynt gan ddynion. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, pan fydd menywod yn lladd eu partneriaid, bod hynny'n aml yn digwydd ar ôl iddynt gael eu cam-drin fel hyn dros nifer o flynyddoedd. Er y bydd hyn yn cael sylw drwy ychwanegu ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol fel ffactor lliniarol, byddwn hefyd yn comisiynu adolygiad o'r defnydd o amddiffyniadau i lofruddiaeth mewn achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, ac rydym yn gwahodd Comisiwn y Gyfraith i'w gynnal.

Rydym hefyd yn derbyn yr argymhellion i wneud llofruddiaeth sy'n digwydd ar ddiwedd perthynas a'r rheini sy'n cynnwys gor-ladd yn ffactorau gwaethygol statudol wrth ddedfrydu am lofruddiaeth. Mae'n gwbl briodol bod grym diangen a milain sy'n achosi dioddefaint annisgrifiadwy yn cael ei adlewyrchu mewn dedfrydu llymach ar gyfer troseddwyr. Ar ben hynny, byddwn yn ehangu ar ymgynghoriad a gyhoeddwyd eisoes ar fan cychwyn o 25 mlynedd ar gyfer llofruddiaethau sydd â hanes o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol er mwyn archwilio'r man cychwyn dedfrydu ar gyfer llofruddiaethau a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall a oedd eisoes yn lleoliad y trosedd.

Rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Cyngor Dedfrydu i gynnig bod canllawiau dedfrydu'n cael eu diwygio yng ngoleuni Adolygiad Clare Wade KC. Mae'r Cyngor wedi penderfynu sefydlu gweithgor i ystyried yr Adolygiad a'r ymateb yn ei gyfanrwydd.

Talaf deyrnged i Carole Gould a Julie Devey, â phwy y cyfarfûm yn ddiweddar, sef mamau Ellie Gould a Poppy Devey Waterhouse a gafodd eu llofruddio gan gyn-bartneriaid. Maent wedi ymgyrchu'n gyson dros newidiadau i'r gyfraith ers y marwolaethau trasig hynny ac wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflwyno Adolygiad Wade.

Bydd y Llywodraeth yn parhau i ystyried yn ofalus y fframwaith dedfrydu a sut mae'n delio â lladdiadau domestig. Yn y pen draw, ein nod yw sicrhau bod y gyfraith yn cosbi'r rheini sy'n cyflawni'r trosedd erchyll hwn yn briodol ac yn rhoi cyfiawnder i deuluoedd dioddefwyr.



**Alex Chalk KC**

Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

# 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn nodi ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig a gynhaliwyd gan Clare Wade KC. Rydym yn croesawu'r Adolygiad ac rydym wedi ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio ohono yn ofalus. Mae ein hymateb i'r argymhellion hyn yn cynnwys newidiadau pwysig i'r fframwaith dedfrydu yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth.

Llofruddiaeth yw'r trosedd mwyaf difrifol y gall person ei gyflawni, a rhaid i ni sicrhau bod y ddedfryd ym mhob achos yn gymesur â difrifoldeb y trosedd. Dylai pawb deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain a rhaid i'n fframwaith dedfrydu adlewyrchu difrifoldeb trais a cham-drin a gyflawnir gan y rhai agosaf atynt.

Wrth wraidd y papur hwn mae diwygiadau arfaethedig a fydd yn diweddaru'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd. Am y tro cyntaf, bydd llofruddiaethau domestig a'r niwed penodol ac ehangach sy'n codi yn yr achosion hyn yn cael ystyriaeth arbenigol yn y fframwaith.

## 1.1 Yr Achos dros Weithredu

Mae tua chwarter yr holl laddiadau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hystyried yn ddomestig; hynny yw, maen nhw'n cael eu cyflawni gan bartner, cyn-bartner neu berthynas y dioddefwr. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd o bron i 160 o laddiadau bob blwyddyn, gyda bron i 90 o'r rhain yn cael eu cyflawni gan bartner neu gyn-bartner.

Ym mis Mawrth 2021, anfonodd y Comisiynydd Dioddefwyr a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig lythyr agored at yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd ynghylch gwahaniaethau ar sail rhyw wrth ddedfrydu achosion o laddiadau domestig.[1]

Roedd y llythyr yn amlinellu pryderon nad yw'n ymddangos bod rhai dedfrydau a dderbynnir gan ddynion sy'n lladd eu partneriaid neu gyn-bartneriaid benywaidd yn adlewyrchu difrifoldeb cam-drin domestig, neu fod y lladdiadau hyn yn aml yn dilyn cyfnod o gam-drin parhaus.

[1] https://victimscommissioner.org.uk/document/joint-letter-from-victims-commissioner-and-domestic-abuse-commissioner-on-domestic-homicide/

I'r gwrthwyneb, mynegwyd pryderon hefyd bod diffyg dealltwriaeth o gam-drin domestig yn golygu bod y dedfrydau a gaiff menywod sy'n lladd eu partneriaid, yn aml ar ôl cyfnod hir o gam-drin, yn gallu ymddangos yn anghymesur o hir.

Mae pryderon ynghylch dedfrydu mewn achosion o laddiadau domestig hefyd wedi cael eu codi gan rieni dwy fenyw ifanc, Poppy Devey Waterhouse ac Ellie Gould, a gafodd eu llofruddio'n drasig gan eu cyn-gariadon yn 2018 a 2019.

Yn ystod haf 2021, mewn ymateb i'r pryderon hyn, cyhoeddodd y Llywodraeth hon y byddem yn comisiynu adolygiad annibynnol o ddedfrydu mewn achosion o laddiad domestig. Penodwyd Clare Wade KC yn adolygydd annibynnol, a chyhoeddwyd ei Hadolygiad ym mis Mawrth eleni.

Mae'r rhan fwyaf o laddiadau domestig yn cael eu cyflawni gan ddynion yn erbyn menywod. Canfu'r Adolygiad fod y dioddefwr, mewn llawer o'r achosion hyn, wedi dioddef blynyddoedd o gamdriniaeth cyn ei farwolaeth. Canfu'r Adolygiad hefyd fod llawer o laddiadau domestig a gyflawnir gan ddynion yn erbyn menywod yn cynnwys 'gor-ladd', y mae'r Adolygiad yn ei ddisgrifio fel defnyddio trais gormodol a direswm, a bod yr achosion hyn yn aml yn digwydd ar ddiwedd perthynas, pan fo'r drwgweithredwr yn gweld na allant reoli'r dioddefwr mwyach.

Pan fydd menywod yn cyflawni lladdiad domestig, yn aml (ond nid ym mhob achos) mae'n digwydd ar ôl iddynt ddioddef camdriniaeth a'u bod wedi lladd yr unigolyn sydd wedi bod yn eu cam-drin. Llofruddiaeth yw'r trosedd mwyaf difrifol y gall unrhyw un ei gyflawni, ond rhaid i'n fframwaith dedfrydu gydnabod llai o feiusrwydd y drwgweithredwr o dan yr amgylchiadau hyn hefyd.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n nodi ein fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth wedi'i chynnwys yn Atodlen 21 Deddf Dedfrydu 2020. Fe'i cyflwynwyd gyntaf yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003 tua ugain mlynedd yn ôl ac nid yw'n cynnwys unrhyw ystyriaeth benodol i ddifrifoldeb lladdiadau domestig a'r cam-drin sy'n aml yn rhagflaenu'r achosion hyn.

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae ein dealltwriaeth gymdeithasol a chyfreithiol o gam-drin domestig wedi esblygu. Cyflwynodd Deddf Cam-drin Domestig 2021 nodedig y Llywodraeth ddiffiniad cyfreithiol eang o gam-drin domestig am y tro cyntaf sy'n ymgorffori amrywiaeth o gam-drin y tu hwnt i drais corfforol, gan gynnwys cam-drin emosiynol ac economaidd, ac ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol.

Ar ben hynny, cynhyrchwyd y Canllaw Dedfrydu Cam-drin Domestig[2] yn 2018 ac mae'n cydnabod yn benodol bod cyd-destun domestig ymddygiad troseddol yn cynrychioli torri ymddiriedaeth a diogelwch ac felly'n gwneud y troseddu'n fwy difrifol.

Mae'r Adolygiad wedi canfod nad yw ein fframwaith dedfrydu ar gyfer lladdiadau eto'n adlewyrchu'r difrifoldeb cynyddol hwn y mae cymdeithas bellach yn ei gydnabod mewn achosion domestig, ac nad yw'n rhoi digon o sylw i raddau'r beiusrwydd sy'n deillio o p'un a oedd drwgweithredwr lladdiad hefyd yn ddrwgweithredwr neu'n ddioddefwr camdriniaeth cyn y lladdiad.

Bydd hyn yn newid. Mae ein hymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad yn dangos newid sylweddol yn y ffordd y mae ein fframwaith dedfrydu yn ymateb i achosion o lofruddiaeth ddomestig.

Am y tro cyntaf, bydd difrifoldeb llofruddiaethau domestig a'r niwed penodol sy'n codi yn yr achosion hyn yn cael ei gydnabod yn ein fframwaith dedfrydu. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r drwgweithredwyr dderbyn dedfrydau sy'n wirioneddol adlewyrchu difrifoldeb y troseddau hyn.

## 1.2 Adeiladu ar Gamau Gweithredu'r Llywodraeth

### Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched

Mae atal trais yn erbyn menywod a merched yn un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon ac mae'r newidiadau a gynigir yn yr ymateb hwn yn eistedd yng nghyd-destun gwaith sylweddol ac ehangach ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched. Mae hyn yn cynnwys creu'r trosedd o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol mewn perthnasoedd agos neu deuluol yn Adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, a chyflwyno Deddf Cam-drin Domestig 2021 sy'n helpu i sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei ddeall yn iawn, yn cael ei ystyried yn annerbyniol ac yn cael ei herio'n weithredol ar draws asiantaethau statudol ac mewn agweddau cyhoeddus. Yn ogystal, cyflwynodd y Ddeddf Cam-drin Domestig drosedd newydd, sef crogi heb fod yn angheuol.

Yn 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth ddwy brif strategaeth hefyd. Yn gyntaf, roedd Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Trais yn ymrwymo i fwy na dyblu nifer yr achosion o dreisio oedolion sy'n cyrraedd y llys erbyn diwedd y Senedd hon, ac i wella'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr a goroeswyr.[3]

2 https://www.sentencingcouncil.org.uk/overarching-guides/magistrates-court/item/domestic-abuse/

3 https://www.gov.uk/government/publications/end-to-end-rape-review-progress-report

Yn ail, mae'r strategaeth ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched yn helpu i sicrhau bod menywod a merched yn ddiogel ym mhobman – gartref, ar-lein, yn y gwaith ac ar y strydoedd. [4]

Dilynwyd y rhain ym mis Mawrth 2022 gan y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig ategol sy'n cynnwys ymrwymiadau allweddol i sbarduno rhagor o newid mewn ymateb i gam-drin domestig.[5]

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni trawslywodraethol trawsnewidiol hyn yn gweithio i atal camdriniaeth, cefnogi dioddefwyr a mynd ar drywydd drwgweithredwyr, yn ogystal â chryfhau ymateb y system i drais yn erbyn menywod a merched.

### Atal Lladdiadau Domestig

Y llynedd, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ei Chynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig a gyflwynodd ymrwymiadau allweddol i leihau lladdiadau domestig, gan gynnwys diwygio'r broses Adolygu Lladdiadau Domestig, cyflwyno cynllun peilot plismona cam-drin domestig ac atal lladdiadau domestig, buddsoddi'n sylweddol mewn lleoliadau gofal iechyd i wella gallu asiantaethau i nodi ac atgyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth, a pharhau i fuddsoddi mewn gwaith ymchwil i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar atal lladdiadau domestig.

Er bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i egwyddor sylfaenol y broses Adolygu Lladdiadau Domestig, rydym hefyd wedi cydnabod bod lle i wella yn y ffordd y caiff y rhain eu cynnal, a sut mae'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio. Bydd diwygiadau newydd i'r broses hon yn cynnwys adnewyddu canllawiau statudol y broses Adolygu Lladdiadau Domestig, cyflwyno rôl ffurfiol i'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, darparu pecyn hyfforddi mwy pwrpasol i Gadeiryddion Adolygu Lladdiadau Domestig a gweithio gyda Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i archwilio'r posibilrwydd o greu rôl ffurfiol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn y broses.

Mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn gweithio gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar Gynllun Peilot Plismona Cam-drin Domestig ac Atal Lladdiadau Domestig newydd a fydd yn nodi heddluoedd sydd â lefelau cymharol uchel o laddiadau domestig a digwyddiadau cam-drin domestig difrifol. Bydd yr heddluoedd hyn yn cael eu harchwilio i sicrhau eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i atal camdrinwyr domestig rhag achosi niwed.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo i fuddsoddi hyd at £7.5 miliwn dros dair blynedd ar gyfer ymyriadau mewn lleoliadau gofal iechyd. Bydd hyn yn helpu i hyfforddi gweithwyr

4 https://www.gov.uk/government/publications/tackling-violence-against-women-and-girls-strategy

5 https://www.gov.uk/government/publications/tackling-domestic-abuse-plan

gofal iechyd proffesiynol, ac yn sicrhau eu bod yn gallu nodi ac atgyfeirio dioddefwyr a goroeswyr at wasanaethau cymorth yn effeithiol.

Mae'r Swyddfa Gartref yn parhau i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar laddiadau domestig drwy'r Prosiect Datblygu Ymarfer a Dealltwriaeth o Fregusrwydd – Lladdiadau Domestig, sy'n cael ei redeg gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Coleg Plismona. Mae'r prosiect yn cyfrif yr holl farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig sydd, yn ogystal â llofruddiaethau domestig gan bartner (presennol neu gyn), aelod o'r teulu neu gyd-breswylydd, hefyd yn cynnwys marwolaethau plant mewn lleoliadau domestig, marwolaethau amheus neu anesboniadwy, ac achosion posibl o hunanladdiad gan unigolion lle mae'r heddlu'n ymwybodol o hanes hysbys o erledigaeth ddomestig. Bellach yn ei drydedd flwyddyn, mae'r Swyddfa Gartref wedi parhau i ddarparu rhagor o gyllid i'r prosiect i adeiladu ar y canfyddiadau cychwynnol a'r gwersi a ddysgwyd o'r marwolaethau hyn i gynorthwyo'r heddlu yn eu hymateb i fynd i'r afael â cham-drin domestig ac i atal rhagor o farwolaethau.

Mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn parhau i ddarparu cyllid i gefnogi'r ddarpariaeth o ymyriadau ar gyfer drwgweithredwyr cam-drin domestig. Mae wedi buddsoddi £25m dros y ddwy flynedd ddiwethaf a bydd yn parhau i ddarparu cymorth dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Mae hefyd yn dylunio cynlluniau peilot ar gyfer Gorchmynion Amddiffyn Cam-drin Domestig, gan gynnwys monitro troseddwyr cam-drin domestig risg uchel yn electronig, ac mae newydd lansio'r llyfrgell ganolog gyntaf ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau Domestig.

### Dedfrydu a Pharôl

Er bod yn rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i atal lladdiadau domestig, pan fyddant yn digwydd, mae dedfrydu'n chwarae rhan hollbwysig yn y system – mae'n ffordd allweddol i'r cyhoedd, dioddefwyr a throseddwyr brofi cyfiawnder ar waith. Roedd Maniffesto'r Ceidwadwyr yn 2019 yn ymrwymo i gyflwyno dedfrydu llymach ar gyfer y troseddwyr gwaethaf ac mae'r newidiadau arfaethedig yn yr ymateb hwn yn adeiladu ar y camau sydd eisoes wedi cael eu cymryd i gyflawni hyn.

Cyflwynodd Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 newidiadau i sicrhau bod y troseddwyr mwyaf difrifol a pheryglus yn treulio mwy o amser yn y carchar, gan fwrw dedfrydau sy'n adlewyrchiad gwirioneddol o ddifrifoldeb eu troseddau. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys diddymu rhyddhau carcharorion yn awtomatig hanner ffordd trwy eu dedfrydau ar gyfer rhai troseddwyr rhyw a threisgar difrifol, gan fynnu eu bod yn bwrw dwy ran o dair o'u dedfrydau yn y carchar yn lle. Rydym hefyd wedi newid y ffordd y mae dedfrydau oes yn ôl disgresiwn yn cael eu cyfrifo, er mwyn sicrhau tariffau hirach yn yr achosion hyn.

Fe wnaethom gyflwyno pŵer newydd i atal troseddwyr sy'n dod yn destun pryder sylweddol o ran diogelu'r cyhoedd pan fyddant yn y carchar rhag cael eu rhyddhau'n awtomatig. Gwnaethom hefyd Orchymyn Oes Gyfan (carchar am oes heb barôl) yn fan

cychwyn ar gyfer llofruddiaeth ragfwriadol plentyn, ac mae gan farnwyr bellach hefyd y disgresiwn i osod y ddedfryd hon ar droseddwyr 18 i 20 oed mewn achosion eithriadol iawn.

Yn y Ddeddf, gwnaethom hefyd weithredu mewn ymateb i achos trasig Ellie Gould, a lofruddiwyd gan ei chyn-gariad 17 oed. Mae fframwaith dedfrydu gwahanol yn berthnasol i blant ac, o fewn hyn, fe wnaethom godi'r mannau cychwyn ar gyfer llofruddiaeth a gyflawnir gan blant hŷn er mwyn sicrhau bod dedfrydau yn yr achosion hyn yn adlewyrchu difrifoldeb y trosedd ac oedran y drwgweithredwr yn well.

Gan adeiladu ar hyn, mae'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion, sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yn cynnwys diwygiadau parôl newydd sylweddol i amddiffyn y cyhoedd a dioddefwyr rhag y troseddwyr mwyaf difrifol. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Cyfiawnder adolygu rhyddhau troseddwyr peryglus, megis llofruddwyr neu dreiswyr, lle gallai fod pryderon.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i gyflwyno mesurau a fydd yn caniatáu i ddioddefwyr arsylwi gwrandawiadau parôl, fel rhan o'n gwaith i wella tryloywder a natur agored y system parôl yng Nghymru a Lloegr. Ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu proses i ganiatáu i ddioddefwyr gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Bwrdd Parôl, yn ogystal â'u Datganiad Personol Dioddefwr. Bydd y newid hwn yn cael ei ymgorffori yn y Cod Dioddefwyr.

Mae'r newidiadau hyn yn dangos bod y Llywodraeth hon o ddifrif ynghylch cadw troseddwyr peryglus oddi ar y strydoedd am gyfnod hwy a sicrhau bod y gosb yn briodol i'r trosedd. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â throseddu ac amddiffyn y cyhoedd a bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig mewn ymateb i'r Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig yn cyfrannu at system sy'n sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr, eu teuluoedd a'r cyhoedd yn gyffredinol.

## 1.3 Y Fframwaith Dedfrydu ar gyfer Llofruddiaeth a Dynladdiad

### Llofruddiaeth

*Dedfryd Oes orfodol*

Bydd unrhyw un a geir yn euog o lofruddiaeth yn derbyn dedfryd oes orfodol.

Ochr yn ochr â'r ddedfryd oes hon, bydd y barnwr sy'n dedfrydu hefyd yn pennu isafswm cyfnod o garchar. Isafswm cyfnod yw faint o amser y bydd y troseddwr yn ei dreulio yn y carchar cyn i'r Bwrdd Parôl ystyried, am y tro cyntaf, a ellir rhyddhau'r troseddwr yn ddiogel i dreulio gweddill ei ddedfryd oes ar drwydded yn y gymuned.

Os caiff troseddwr ei ryddhau, bydd yn aros ar drwydded am weddill ei fywyd a gellir ei alw'n ôl i'r carchar ar unrhyw adeg. Efallai y bydd y Bwrdd Parôl yn penderfynu nad yw

byth yn ddiogel i'r troseddwr gael ei ryddhau ac, os felly, bydd y troseddwr yn treulio ei ddedfryd oes gyfan yn y carchar.

### *Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020*

Mae Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020[6] (Atodlen 21 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 gynt) yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid i'r llys eu hystyried wrth asesu difrifoldeb pob achos o lofruddiaeth, er mwyn penderfynu ar y cyfnod byrraf priodol i'w bennu.

Nid yw Atodlen 21 yn nodi'r holl senarios posibl. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer penderfynu ar y cyfnod byrraf priodol ar sail amgylchiadau penodol pob achos. Mae'n ofynnol i farnwyr roi sylw i'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn Atodlen 21, a rhaid iddynt ddilyn unrhyw ganllawiau dedfrydu perthnasol, oni bai bod gwneud hynny yn groes i fuddiannau cyfiawnder.

### *Mannau Cychwyn*

Mae Atodlen 21 yn cynnwys ystod o fannau cychwyn ar gyfer penderfynu ar y cyfnod byrraf. Bydd amgylchiadau penodol llofruddiaeth yn pennu pa un o'r mannau cychwyn hyn sy'n berthnasol i achos penodol.

Mae man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd yn berthnasol i bob achos o lofruddiaeth a gyflawnir gan droseddwyr 18 oed neu hŷn.

Mae man cychwyn 25 mlynedd ar gyfer llofruddiaethau sy'n ymwneud â defnyddio arf sydd wedi cael ei gludo i leoliad y trosedd gyda bwriad, a sefydlwyd i gydnabod difrifoldeb meddiant anghyfreithlon a defnyddio cyllyll yn gyhoeddus.

Y mannau cychwyn uchaf yw 30 mlynedd a Gorchymyn Oes Gyfan. Mae'r rhain yn cydnabod difrifoldeb eithriadol ac arbennig o uchel rhai llofruddiaethau, megis y rheini sy'n ymwneud â llofruddio dau neu fwy o bobl neu herwgydio a llofruddio plentyn.

Mae troseddwyr sydd o dan 18 oed pan fyddant yn cyflawni trosedd yn wynebu graddfa symudol o fannau cychwyn sy'n amrywio o 8 i 27 o flynyddoedd, yn dibynnu ar oed y troseddwr pan gyflawnwyd y trosedd a difrifoldeb y trosedd.

### *Ffactorau Gwaethygol a Lliniarol*

Ceir mannau cychwyn yn Atodlen 21 a dyna'n union ydyn nhw, mannau cychwyn. Ar ôl nodi'r man cychwyn, gall y cyfnod byrraf a ddedfrydir amrywio'n sylweddol tuag i fyny neu i lawr o'r man cychwyn cychwynnol, yn dibynnu ar y ffactorau gwaethygol a lliniarol ym mhob achos.

Mae Atodlen 21 yn cynnwys ffactorau gwaethygol a lliniarol statudol a allai fod yn berthnasol i'r trosedd o lofruddiaeth. Nid yw'r ffactorau statudol hyn yn hollgynhwysfawr,

6 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/17/schedule/21

ac mae'r barnwr sy'n dedfrydu yn gallu ystyried unrhyw ffactorau perthnasol o ran gwaethygu a lliniaru.

Nid oes terfyn uchaf nac isaf ar y cyfnod byrraf terfynol sydd i'w osod. Ar ôl ystyried holl amgylchiadau'r achos a'r ffactorau gwaethygol a lliniarol perthnasol, gall y barnwr bennu cyfnod byrraf o unrhyw hyd, beth bynnag yw'r man cychwyn.

### Dynladdiad

Mae'r fframwaith dedfrydu ar gyfer dynladdiad wedi'i gynnwys yn y Canllaw Dedfrydu Dynladdiad, a gyhoeddwyd gan Gyngor Dedfrydu annibynnol Cymru a Lloegr yn 2018.[7]

Prif swyddogaeth y Cyngor yw cyhoeddi canllawiau ar ddedfrydu, y mae gan y llysoedd ddyletswydd statudol i'w dilyn, oni bai y byddai gwneud hynny'n groes i fuddiannau cyfiawnder.

Mae troseddau dynladdiad yn cwmpasu ystod eang iawn o amgylchiadau ac felly gall dedfrydau mewn achosion o ddynladdiad amrywio'n fawr.

## 1.4 Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig

### Cylch Gorchwyl, Pwrpas a Chwmpas

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â dedfrydu am lofruddiaeth yn gymhleth ac mae ei newid yn rhywbeth y mae'n rhaid ei ystyried yn ofalus er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol.

Yn ystod haf 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth hon y byddem yn comisiynu adolygiad annibynnol o ddedfrydu mewn achosion o laddiadau domestig. Fe wnaethom gyhoeddi'r Cylch Gorchwyl ym mis Tachwedd 2021.[8]

Pwrpas yr Adolygiad oedd canfod, i'r graddau sy'n bosibl, sut mae'r gyfraith bresennol yn berthnasol i achosion o laddiadau domestig a nodi opsiynau ar gyfer diwygio lle bo hynny'n briodol.

Cwmpas yr Adolygiad oedd archwilio achosion lle mae unigolyn wedi achosi marwolaeth partner agos neu gyn-bartner a'i fod wedi'i gyhuddo a/neu ei gael yn euog o lofruddiaeth neu ddynladdiad yng Nghymru a Lloegr.

Fodd bynnag, mae rhai o'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad yn golygu y byddai eu cymhwyso i Atodlen 21 yn berthnasol i berthnasoedd eraill mewn cyd-destun domestig ac i achosion nad ydynt o fewn cyd-destun domestig.

---

7 https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Manslaughter-definitive-guideline-Web.pdf

8 https://www.gov.uk/government/publications/domestic-homicide-sentencing-review-terms-of-reference/domestic-homicide-sentencing-review-terms-of-reference

## Adolygiad Achos Cychwynnol

Cyn penodi adolygydd annibynnol, comisiynwyd Adolygiad Achos Cychwynnol gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad o sylwadau dedfrydu 120 o achosion o laddiad domestig. Nod yr Adolygiad Achos Cychwynnol oedd deall sut mae'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol yn gweithredu'n ymarferol. Cafodd canfyddiadau'r Adolygiad Achos Cychwynnol eu rhannu â'r adolygydd annibynnol a'u cyhoeddi ym mis Mawrth 2023.[9]

Canfu'r Adolygiad Achos Cychwynnol, oherwydd y man cychwyn 25 mlynedd, fod y cwestiwn "A gafodd yr arf a ddefnyddiwyd ei gario i leoliad y trosedd gyda bwriad?" yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i hyd cyffredinol y ddedfryd. Ar gyfer llofruddiaethau sy'n ddarostyngedig i'r man cychwyn 15 mlynedd, mae defnyddio ffactorau gwaethygol yn aml yn golygu bod y cyfnod lleiaf a roddir yn fwy na 15 mlynedd, ond nid yw'n debygol o sicrhau cydraddoldeb â'r isafswm cyfnod a roddir ar gyfer yr achosion hynny sy'n ddarostyngedig i'r man cychwyn 25 mlynedd.

Canfyddiadau allweddol eraill yr Adolygiad Achos Cychwynnol yw bod pob un o'r llofruddiaethau a gyflawnwyd gan fenywod yn ymwneud â defnyddio arf a, phan fydd benyw yn lladd ag arf, ei bod yn aml yn cynnwys un ergyd yn unig.

Er nad oedd yr Adolygiad Achos Cychwynnol yn ystyried ei bod yn bosibl nac yn ddibynadwy ceisio nodi'r union ffigur ar gyfer cynyddu neu ostwng dedfryd gan ffactorau gwaethygol neu liniarol unigol, canfu fod barnwyr yn rhoi sylw penodol i gam-drin domestig blaenorol wrth ddedfrydu am lofruddiaeth. Fodd bynnag, canfu hefyd y gall y pwysau y maent yn ei roi arno amrywio o un achos i'r llall, a'i bod yn werth nodi nad yw'n gweithio'n gyffredinol mewn rhai achosion i gynyddu'r isafswm cyfnod yn sylweddol.

Roedd yr Adolygiad Achos Cychwynnol hefyd yn cynnwys casglu data perthnasol o'r 120 achos o laddiad domestig, gan gynnwys mynychder ffactorau gwaethygol a lliniarol statudol ac anstatudol, a'r man cychwyn perthnasol a'r cyfnod carcharu lleiaf. Crynhoir y data hwn yn Atodiad D Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig Clare Wade KC.

## Adolygydd Annibynnol a chyhoeddi'r Adolygiad

Ym mis Medi 2021, fe wnaethom gyhoeddi bod Clare Wade KC wedi cael ei phenodi fel yr adolygydd annibynnol. Mae Clare Wade KC yn fargyfreithiwr amddiffyn troseddol blaenllaw a hi oedd y prif gwnsler yn achos proffil uchel Sally Challen. Yr achos hwn oedd y tro cyntaf i'r Llys Apêl ystyried rheolaeth drwy orfodaeth yng nghyd-destun yr amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth, gan arwain at ddiddymu euogfarn llofruddiaeth Sally Challen.

---

[9] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1150459/domestic-homicide-sentencing-review-case-review.pdf

Cyflwynodd Clare Wade KC ei Hadolygiad o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig i’r Llywodraeth ym mis Mehefin 2022. Fe wnaethom gyhoeddi’r Adolygiad, sy’n gwneud 17 o argymhellion ar gyfer diwygio, ym mis Mawrth 2023.[10] Gwnaeth y Llywodraeth gyhoeddiad interim ar yr adeg hwn ac rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi ymateb llawn yr haf hwn.[11]

Yn y cyhoeddiad interim, ymrwymodd y Llywodraeth i dderbyn nifer o argymhellion yr Adolygiad. Roedd yr ymrwymiadau hyn yn cynnwys gwneud gor-ladd ac ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn ffactorau gwaethygol statudol o lofruddiaeth, sy’n ymwneud ag argymhellion 8 a 5 yn y drefn honno. Gwnaethom hefyd gyhoeddi bod yr Arglwydd Ganghellor wedi ysgrifennu at Gyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr i gynnig eu bod yn diwygio eu canllawiau mewn perthynas â marwolaethau sy’n digwydd yn ystod trais yr honnir ei fod yn gydsyniol yn ystod cyfarfyddiad rhywiol, sy’n ymwneud ag argymhelliad 16.

10 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1143045/domestic-homicide-sentencing-review.pdf

11 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1143383/domestic-homicide-sentencing-review-wms.pdf

# 2. Ymateb i'r Argymhellion a wnaed gan Clare Wade KC

## 2.1 Argymhellion Cyffredinol

**Argymhelliad 1: Casglu Data**

Rydym yn argymell y dylid cael system benodol ar gyfer casglu'r holl ddata perthnasol mewn perthynas â phob lladdiad domestig, sy'n cael ei chynnal gan y Swyddfa Gartref neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig.

Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Gartref yn casglu llawer iawn o wybodaeth fanwl am bob lladdiad sy'n digwydd yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys data am laddiadau domestig a gofnodir gan heddluoedd, drwy Fynegai Lladdiadau'r Swyddfa Gartref.[12] Mae Mynegai Lladdiadau'r Swyddfa Gartref wedi'i dynodi'n Ystadegau Gwladol ac mae'r set ddata'n cael ei chyhoeddi'n flynyddol, ynghyd â dadansoddiad o dueddiadau tymor hir.

Mae'r Swyddfa Gartref newydd lansio fersiwn beta o'r Llyfrgell Adolygu Lladdiadau Domestig newydd i sicrhau bod yr holl ffeiliau Adolygu Lladdiadau Domestig a gyhoeddir yn hygyrch i'r cyhoedd, rhanddeiliaid perthnasol ac ymchwilwyr. Bydd y Llyfrgell Adolygu Lladdiadau Domestig yn galluogi llawer mwy o ddadansoddi patrymau, tueddiadau a ffactorau risg ar gyfer lladdiadau domestig. Yn y pen draw, bydd yn helpu i wella dealltwriaeth cymdeithas gyfan o'r hyn sy'n sbarduno ac yn achosi lladdiadau domestig a'r ffyrdd y gellir atal y troseddau erchyll hyn.

Bydd y Comisiynydd Cam-drin Domestig yn cael cyfrifoldeb dros nodi themâu allweddol a chyfleoedd dysgu sy'n dod i'r amlwg o Adolygiadau Lladdiadau Domestig a chynghori'r Llywodraeth ar ble i wneud gwelliannau ar lefel genedlaethol. Bydd y Comisiynydd hefyd yn nodi ac yn cefnogi gwelliannau lleol a rhanbarthol.

Felly, mae'r Llyfrgell Adolygu Lladdiadau Domestig newydd yn cynrychioli cydnabyddiaeth o ysbryd yr argymhelliad. Byddai creu system benodol arall ar gyfer casglu'r holl ddata perthnasol mewn perthynas â phob lladdiad domestig yn dyblygu data a gesglir yn y Llyfrgell Adolygu Lladdiadau Domestig a Mynegai Lladdiadau'r Swyddfa Gartref, ac felly byddai'n ddiangen.

[12] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/appendixtables homicideinenglandandwales

**Argymhelliad 2: Hyfforddiant**

Rydym yn argymell hyfforddiant gorfodol i bob cyfreithiwr a barnwr ar ddeall a chymhwyso'r cysyniad o reolaeth drwy orfodaeth (gyda'r bwriad o sicrhau dull mwy fforensig o ymdrin â cham-drin domestig drwy'r system cyfiawnder troseddol).

Ar wahân i Wasanaeth Erlyn y Goron, mae'r argymhelliad hwn y tu allan i gylch gwaith y Llywodraeth.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron eisoes yn darparu pecyn hyfforddi cynhwysfawr ar gam-drin domestig ac ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol. Mae hyn yn cynnwys sesiwn gynefino orfodol gyda modiwl sy'n benodol i eiriolaeth cam-drin domestig, yn ogystal â modiwlau e-ddysgu ychwanegol ar gam-drin domestig ac ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol. Yn eu Cynllun Busnes 2020/21, gwnaed ymrwymiad y byddent yn adolygu'r holl hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gam-drin domestig, gyda cham-drin gorfodaethol neu reolaethol yn cael ei nodi fel maes blaenoriaeth uchel. Maent yn awr yn cyflwyno cwrs gloywi ar gam-drin domestig, sy'n orfodol i bob erlynydd sy'n delio ag achosion o gam-drin domestig, sy'n cynnwys astudiaeth achos ar ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol.

Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ganllawiau erlyn wedi'u diweddaru ar stelcio ac ar gyfer achosion sy'n ymwneud â rheolaeth drwy orfodaeth. Bydd y canllawiau wedi'u diweddaru yn darparu ffordd strwythuredig i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron werthuso'r ymddygiadau sy'n cael eu harddangos ym mhob achos ac asesu a oes ymddygiad stelcio, gorfodaethol neu reolaethol amlwg ar waith. Er mwyn sicrhau cysondeb, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i ddatblygu modiwl ychwanegol ar gyfer ymchwilwyr eilaidd i'w ychwanegu at eu hyfforddiant Materion Cam-drin Domestig. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn datblygu ei fodiwlau pwrpasol ei hun ar reolaeth drwy orfodaeth, stelcio ac effaith trawma ar ddioddefwyr cam-drin domestig, i helpu erlynwyr i nodi ac erlyn troseddau sy'n cael eu sbarduno gan ymddygiad yn well a rhoi'r newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 ar waith.

Yn olaf, ar y cyd â'r heddlu, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu Cynllun Cam-drin Domestig ar y Cyd a fydd yn gwella'r broses o ymchwilio, erlyn a delio ar y cyd â cham-drin domestig, a sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr yn well.

Rydym wedi cysylltu â'r Uwch Farnwriaeth, Cymdeithas y Gyfraith, yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, Cyngor y Bar a Bwrdd Safonau'r Bar ynghylch yr argymhelliad hwn i sicrhau ein bod yn deall eu safbwyntiau. Byddem yn croesawu gweithio gyda'r cyrff hyn ymhellach os bydd angen unrhyw gymorth arnynt i sicrhau bod eu hyfforddiant yn adlewyrchu ein dealltwriaeth ddiweddaraf o ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol.

Ym mis Ebrill, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ganllawiau statudol wedi'u diweddaru ar ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol. Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at gyrff statudol ac anstatudol a gwasanaethau comisiynu, gan gynnwys yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol. Rydym wedi rhannu'r canllawiau hyn â'r cyrff perthnasol, ac, os bydd ei angen arnynt, byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth berthnasol iddynt i gefnogi unrhyw adolygiad a datblygiad posibl o hyfforddiant ar ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol, yn enwedig yng ngoleuni unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n deillio o'n hymateb i'r Adolygiad.

## 2.2 Argymhellion mewn Perthynas ag Achosion o Lofruddiaeth

**Argymhelliad 3: Cymryd Cyllell neu Arf i Leoliad y Trosedd**

Rydym yn argymell y dylid datgymhwyso'r man cychwyn o 25 mlynedd sy'n berthnasol mewn amgylchiadau lle cymerir cyllell neu arf arall i leoliad y trosedd mewn achosion o lofruddiaeth ddomestig oherwydd ei fod yn dynodi man cychwyn lle nad yw bregusrwydd y dioddefwr yn cael ei ystyried. (Mae'r niweidiau, a gyflwynwyd yn 2010, sy'n berthnasol i baragraff 5A o Atodlen 21 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, yn wahanol iawn i'r math o niweidiau sy'n digwydd mewn llofruddiaethau domestig).

Mae'r Adolygiad yn argymell bod y man cychwyn 25 mlynedd ar gyfer penderfynu ar y cyfnod byrraf yn cael ei ddatgymhwyso mewn achosion o lofruddiaeth ddomestig. Byddai hyn yn golygu, ni waeth a oedd yr arf llofruddiaeth wedi'i gludo i'r lleoliad gyda bwriad ai peidio, y byddai gan bob llofruddiaeth ddomestig fan cychwyn o 15 mlynedd (oni bai fod amgylchiadau penodol eraill y llofruddiaeth yn golygu eu bod yn gymwys ar gyfer y man cychwyn 30 mlynedd neu'r man cychwyn Gorchymyn Oes Gyfan neu fod y drwgweithredwr yn blentyn).

Byddai hyn yn arwain at wahaniaeth anghyfiawn yn y ffordd y mae'r fframwaith dedfrydu'n ymateb i lofruddiaethau lle mae arf a ddefnyddiwyd wedi cael ei gludo i'r lleoliad gyda bwriad, yn dibynnu ar natur y cysylltiad rhwng y dioddefwr a'r drwgweithredwr. O ganlyniad, nid ydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Fodd bynnag, mae'r Adolygiad a'r Llywodraeth hon yn glir bod yn rhaid diweddaru'r fframwaith dedfrydu i gydnabod niweidiau penodol lladdiadau domestig. Mae ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion yn yr Adolygiad yn cynrychioli newid pwysig o ran cyflawni hyn.

**Argymhelliad 4: Model Rheolaeth Drwy Orfodaeth**

Rydym yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth arbenigol i lofruddiaethau domestig yn y fframwaith dedfrydu presennol o dan Atodlen 21. Dylid dynodi lefel o ddifrifoldeb drwy ddefnyddio’r model rheolaeth drwy orfodaeth o fewn y man cychwyn arferol o 15 mlynedd. Y bwriad yw sicrhau bod amgylchiadau rhyweddol (fel lladd ar ddiwedd perthynas a chenfigen) yn cael eu defnyddio i briodoli difrifoldeb i’r llofruddiaeth a bod niweidiau cyfreithiol ehangach yn cael eu nodi a’u hadlewyrchu yn y ddedfryd.

Mae’r argymhelliad hwn, ‘y model rheolaeth drwy orfodaeth’, yn gysyniad trosfwaol sy’n cwmpasu argymhellion eraill a wnaed yn yr Adolygiad.

Mae defnyddio’r model yn golygu ychwanegu ffactorau gwaethygol a lliniarol statudol at y fframwaith dedfrydu sy’n adlewyrchu’r niwed ehangach sy’n benodol i’r achosion hyn. Mae ffactorau gwaethygol a lliniarol statudol yn amgylchiadau penodol mewn achosion lle mae’n rhaid i’r barnwr dedfrydu eu hystyried wrth benderfynu a ddylai’r isafswm cyfnod o garchar a roddir wyro – i fyny neu i lawr – o’r man cychwyn cychwynnol.

Mae’r ymateb hwn yn amlinellu pa rai o’r argymhellion rydym yn eu derbyn a bydd yn gwneud ffactorau gwaethygol a lliniarol yn statudol ar gyfer llofruddiaeth yn Atodlen 21.

**Argymhelliad 5: Ystyried Ymddygiad Gorfodaethol a Rheolaethol yn Ffactorau Gwaethygol a Lliniarol**

Rydym yn argymell, lle mae hanes o reolaeth drwy orfodaeth ar ddioddefwr llofruddiaeth gan y sawl a gyflawnodd y trosedd, y dylai hwn fod yn ffactor gwaethygol statudol ac y dylid diwygio paragraffau 9 o Atodlen 21 yn unol â hynny.

Ar y llaw arall, rydym yn argymell, lle mae hanes o reolaeth drwy orfodaeth wedi’i gyflawni gan y dioddefwr llofruddiaeth yn erbyn y troseddwr, y dylai hwn fod yn ffactor lliniarol statudol ac y dylid diwygio paragraff 10 o Atodlen 21 Deddf Dedfrydu 2020 yn unol â hynny.

### Ymddygiad Rheolaethol neu Orfodaethol

Gwnaeth y Llywodraeth hon ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn drosedd yn Adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015. Gall yr ymddygiad hwn gynnwys cam-drin economaidd, emosiynol neu seicolegol, cam-drin domestig a hwylusir gan dechnoleg, yn ogystal â bygythiadau, p'un a yw trais neu gam-drin corfforol a rhywiol yn cyd-fynd â hwy ai peidio.

Nid yw ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn ymwneud ag un digwyddiad yn unig. Mae'n batrwm pwrpasol o ymddygiad sy'n digwydd dros amser ac sy'n ynysu'r dioddefwr oddi wrth gefnogaeth, yn eu hecsbloetio, yn eu hamddifadu o annibyniaeth ac yn rheoleiddio eu hymddygiad bob dydd.

Gwnaeth Deddf Cam-drin Domestig 2021 ddiwygio'r diffiniad o "gysylltiad personol" mewn perthynas â'r trosedd o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, fel ei fod bellach yn berthnasol i bartneriaid, cyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu, ni waeth a yw'r dioddefwr a'r drwgweithredwr yn byw gyda'i gilydd. Yn flaenorol, roedd "byw gyda'i gilydd" yn ofyniad i'r trosedd.

Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref fframwaith canllawiau statudol wedi'i ddiweddaru ar gyfer y trosedd o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol.[13] Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth i helpu i nodi, tystiolaethu, cyhuddo, erlyn ac euogfarnu'r trosedd.

### Ffactor Gwaethygol a Lliniarol

Anaml y mae achosion o lofruddiaeth ddomestig yn ddigwyddiadau gwahanedig. Maent yn aml yn benllanw blynyddoedd o gam-drin; camdriniaeth sydd, fel y dengys yr Adolygiad, yn seiliedig ar orfodaeth a rheolaeth.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cam-drin hwn wedi cael ei gyflawni gan y sawl a gyflawnodd y trosedd o lofruddiaeth yn erbyn y dioddefwr. Fodd bynnag, mae lleiafrif o achosion yn cynnwys dioddefwr cam-drin sydd wedi lladd yr unigolyn sy'n ei gam-drin. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, menyw yw'r sawl sy'n cyflawni'r lladdiad a'r sawl sy'n dioddef y cam-drin.

Cynhyrchwyd y Canllaw Dedfrydu Cam-drin Domestig yn 2018 gan y Cyngor Dedfrydu annibynnol ac mae'n cydnabod yn benodol bod y cyd-destun domestig o ymddygiad troseddol yn cynrychioli torri ymddiriedaeth a diogelwch, ac felly'n gwneud y troseddu'n fwy difrifol.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw ffactorau gwaethygol neu liniarol statudol yn y fframwaith dedfrydu presennol ar gyfer llofruddiaeth sy'n cydnabod difrifoldeb y cam-drin blaenorol sydd mor gyffredin mewn achosion domestig. Rhaid i hyn newid.

Mewn achosion lle mae partner neu aelod o'r teulu sy'n cam-drin wedi lladd ei ddioddefwr, bydd difrifoldeb y cam-drin blaenorol a phrofiad y dioddefwr cyn marwolaeth yn awr yn cael eu cydnabod mewn statud. **Byddwn yn ychwanegu ffactor gwaethygol statudol at**

13 https://www.gov.uk/government/publications/controlling-or-coercive-behaviour-statutory-guidance-framework

**Atodlen 21 ar gyfer hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y sawl sy'n cyflawni yn erbyn y dioddefwr.**

Ar gyfer achosion lle mae dioddefwr cam-drin wedi lladd ei gamdriniwr, yn aml ar ôl blynyddoedd neu hyd yn oed ddegawdau o gam-drin, bydd ei brofiad o gam-drin a oedd yn rhagflaenu'r lladdiad a'r effaith a gaiff hyn ar ei feiusrwydd yn awr yn cael eu cydnabod mewn statud. **Byddwn yn ychwanegu ffactor lliniarol statudol at Atodlen 21 ar gyfer hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y dioddefwr yn erbyn y drwgweithredwr.**

**Argymhelliad 6: Ystyried Diwedd Perthynas yn Ffactor Gwaethygol**

Rydym yn argymell, os bydd llofruddiaeth yn digwydd ar ddiwedd perthynas neu pan fydd y dioddefwr wedi mynegi'r awydd i adael perthynas, yna dylid ystyried hwn yn ffactor gwaethygol, ac y dylid diwygio paragraff 9 Atodlen 21 yn unol â hynny.

Mewn bron i hanner yr achosion o lofruddiaeth a ddadansoddwyd yn yr Adolygiad Achos Cychwynnol, cafwyd adroddiadau o genfigen neu ddicter ar ran y drwgweithredwr wrth i'r berthynas chwalu ac, yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, roedd hyn yn ymddangos fel catalydd ar gyfer y lladd. Ym mhob un ond un o'r achosion hyn, roedd y drwgweithredwr yn wrywaidd ac, mewn dros ddwy ran o dair ohonynt, nodwyd hanes o ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol hefyd.

Mae dadansoddiad pellach o'r sylwadau dedfrydu yn yr achosion hyn hefyd wedi canfod ei bod yn ymddangos bod y barnwr dedfrydu, mewn rhai achosion, wedi ystyried y cythrudd neu'r trallod a achoswyd i'r drwgweithredwr gan y chwalfa yn y berthynas fel ffordd o liniaru'r trosedd.

Mae llofruddiaeth sy'n cynnwys dicter neu genfigen gan y drwgweithredwr ar ddiwedd y berthynas yn nodwedd arwyddocaol o achosion yn ymwneud ag ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol yn erbyn y dioddefwr. Dyma weithred olaf reolaethol partner sy'n cam-drin; *"os na allaf eich cael chi, ni fydd neb yn eich cael chi*".[14]

Bydd difrifoldeb hyn yn awr yn cael ei gydnabod mewn statud. **Byddwn yn ychwanegu ffactor gwaethygol statudol at Atodlen 21 ar gyfer achosion o lofruddiaeth sy'n digwydd ar ddiwedd y berthynas neu pan fydd y dioddefwr wedi mynegi dymuniad i adael y berthynas.**

[14] Stark (Evan), Coercive Control "How men entrap women in personal life" OUP (2007) p208.

**Argymhelliad 7: Eithrio Anffyddlondeb Rhywiol fel Ffactor Lliniarol**

Rydym yn argymell cysondeb rhwng y gyfraith a pholisi, yn benodol y dylai'r ffactorau lliniarol presennol fod yn gyson â'r polisi sy'n sail i a.55(6)(c) Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Yn benodol, ni all yr anffyddlondeb rhywiol ar ran yr ymadawedig liniaru'r llofruddiaeth. Y bwriad deddfwriaethol sy'n sail i gyflwyno'r amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth oedd ei gwneud yn glir na allai anffyddlondeb rhywiol esgusodi na chyfiawnhau lladd. Ni ddiwygiwyd ffactorau gwaethygol a lliniarol ym mharagraffau 10 ac 11 o Atodlen 21 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 pan ddiddymwyd cythrudd. Fel y saif y gyfraith, gallai anffyddlondeb rhywiol barhau i fod yn gyfystyr â chythrudd (er nid yw'n gyfwerth ag amddiffyniad) yn yr ychydig achosion lle mae'r llys yn ystyried yr hen gyfraith o gythrudd.

Cafodd cythrudd, fel amddiffyniad rhannol i lofruddio, ei ddisodli yn Neddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 gan yr amddiffyniad rhannol newydd o golli rheolaeth sydd, os yw'n llwyddiannus, yn arwain at euogfarn am ddynladdiad yn hytrach na llofruddiaeth. Mae adran 55(6)(c) o'r Ddeddf yn nodi na ellir ystyried anffyddlondeb rhywiol yn sbardun cymwys ar gyfer yr amddiffyniad o golli rheolaeth. Gwnaed y newid hwn i atal diffynnydd rhag gallu defnyddio anffyddlondeb rhywiol y dioddefwr i israddio ei euogfarn o lofruddiaeth i ddynladdiad, ac mae'n adlewyrchu dealltwriaeth gymdeithasol fodern o anffyddlondeb rhywiol.

Nid oes angen newid tebyg i ddarpariaethau Atodlen 21. Mae'r Canllaw Dedfrydu Cam-drin Domestig eisoes yn berthnasol mewn amgylchiadau priodol ac mae'n nodi'n benodol "nad yw cythrudd yn lliniaru trosedd mewn cyd-destun domestig, ac eithrio mewn amgylchiadau prin". Ar ben hynny, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth yn yr Adolygiad bod anffyddlondeb rhywiol yn cael ei ystyried yn amhriodol fel mesur lliniaru.

Mae'r gyfraith eisoes yn darparu ffordd ddigonol o gyfyngu ar allu barnwyr i drin anffyddlondeb rhywiol fel cythrudd.

**Argymhelliad 8: Ystyried Gor-ladd yn Ffactor Gwaethygol**

Rydym yn argymell y dylid diffinio gor-ladd yn y gyfraith fel niwed cyfreithiol penodol ac y dylai fod yn ffactor gwaethygol mewn llofruddiaethau. Dylid diwygio paragraff 9 o Atodlen 21 yn unol â hynny.

Mae Clare Wade KC yn defnyddio'r term 'gor-ladd' yn yr Adolygiad i gyfeirio at ddefnyddio trais gormodol neu ddireswm, y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol i ladd. Mae gor-ladd yn achosi gofid mawr i deuluoedd dioddefwyr, gan wybod bod corff eu hanwylyd wedi'i ymhalogi yn y fath ffordd .

Mae mynychder gor-ladd mewn llofruddiaethau domestig yn drawiadol. Nodwyd gor-ladd mewn dros hanner yr achosion o lofruddiaeth a ddadansoddwyd yn yr Adolygiad Achos Cychwynnol. Ym mhob un ond un o'r achosion hyn, roedd y drwgweithredwr yn wrywaidd, ac mewn dros ddwy ran o dair o'r achosion, roedd y drwgweithredwr hefyd wedi arddangos ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol tuag at y dioddefwr.

Rhaid cydnabod arswyd gor-ladd a'r gofid y mae'n ei achosi i deuluoedd dioddefwyr mewn statud. **Byddwn yn ychwanegu ffactor gwaethygol statudol at Atodlen 21 ar gyfer achosion o lofruddiaeth sy'n cynnwys trais sy'n gyfystyr â gor-ladd.**

**Argymhelliad 9: Ystyried Crogi yn Ffactor Gwaethygol**

Rydym yn argymell, mewn achosion o lofruddiaeth trwy grogi neu mewn achosion o lofruddiaeth lle mae crogi wedi digwydd, y dylai'r dull hwn o ladd fod yn ffactor gwaethygol statudol ac y dylid diwygio paragraff 9 o Atodlen 21 yn unol â hynny. Y rheswm am hyn yw bod crogi yn cynnwys dioddefaint ychwanegol a mwy o niwed.

Mae'r Llywodraeth hon yn cydnabod arwyddocâd a difrifoldeb crogi fel dull o arfer grym a rheolaeth, yn enwedig yng nghyd-destun cam-drin domestig lle mae dynion sy'n gorfforol gryfach yn ymosod ar ddioddefwyr benywaidd.

Cafodd crogi nad yw'n angheuol ei wneud yn drosedd penodol yng Nghymru a Lloegr fel rhan o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 nodedig y Llywodraeth, a daeth y trosedd i rym ym mis Mehefin 2022. Ar ben hynny, ym mis Ebrill eleni, cyhoeddodd y Llywodraeth fframwaith canllawiau statudol wedi'i ddiweddaru ar gyfer ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol. Mae'r canllawiau hyn, sydd wedi'u diweddaru, nawr yn nodi bod crogi nad yw'n angheuol yn arwydd o ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol ac mae'n ffactor risg ar gyfer lladdiadau partner agos.

Yn gyffredinol, mae Atodlen 21 yn diffinio'r difrifoldeb y dylid ei ddefnyddio i ystyried llofruddiaeth wrth ddedfrydu yn ôl amgylchiadau'r lladd, yn hytrach na'r modd yr achoswyd y farwolaeth. Mae'r mannau cychwyn a'r ffactorau gwaethygol statudol yn Atodlen 21 yn ymwneud naill ai ag angen penodol i gydnabod bregusrwydd y dioddefwr (e.e. oherwydd hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran neu anabledd), neu'r pwrpas y cyflawnwyd y llofruddiaeth ar ei gyfer (e.e. gwleidyddol, er budd personol neu ymddygiad rhywiol neu sadistig).

Yr eithriadau i hyn, pan fo difrifoldeb yn Atodlen 21 yn cael ei asesu yn ôl y dull lladd, yw llofruddiaethau sy'n ymwneud â defnyddio arf tanio a llofruddiaethau lle cafodd yr arf a ddefnyddiwyd ei gludo i leoliad y trosedd gyda bwriad. Mae'r naill a'r llall yn ymwneud ag amddiffyn y cyhoedd rhag meddiant a defnydd anghyfreithlon o arfau yn gyhoeddus.

Gall gwneud crogi yn ffactor gwaethygol statudol i lofruddio arwain at roi gormod o bwyslais ar y dull lladd. Gallai hyn osod cynsail o geisio rhestru dulliau lladd mewn statud. Mae hyn yn bryder y mae Clare Wade KC yn ei gydnabod yn yr Adolygiad. Mae hefyd yn bosibl y gallai derbyn yr argymhelliad hwn arwain yn anfwriadol at leihau difrifoldeb cymharol y ffordd y mae dulliau eraill o ladd, nad ydynt wedi'u rhestru fel ffactorau gwaethygol statudol, yn cael eu hystyried at ddibenion dedfrydu.

Nid yw'r ffactorau gwaethygol statudol yn Atodlen 21 yn hollgynhwysfawr ac mae'r barnwr sy'n dedfrydu yn gallu ystyried unrhyw ffactorau perthnasol o ran gwaethygiad. Mae dadansoddiad o'r sylwadau dedfrydu yn yr Adolygiad Achos Cychwynnol yn dangos bod 'natur y lladd' yn ffactor gwaethygol anstatudol sy'n aml yn cael ei ystyried wrth ddedfrydu ar gyfer llofruddiaeth a gall gynnwys crogi.

**Argymhelliad 10: Eithrio Defnyddio Arf fel Ffactor Gwaethygol**

Rydym yn argymell na ddylid o reidrwydd ystyried defnyddio arf mewn llofruddiaeth ddomestig fel ffactor gwaethygol. Mae ein rhesymau dros ddod i'r casgliad nad yw defnyddio arf bob amser yn gwaethygu trosedd o lofruddiaeth neu ddynladdiad domestig yn ymwneud â rhywedd. Anaml iawn y mae menywod (os o gwbl) yn gallu lladd dynion heb ddefnyddio arf, ond nid yw hyn yr un fath i ddynion sy'n aml yn lladd drwy grogi â llaw.

Mae Canllaw Egwyddorion Cyffredinol y Cyngor Dedfrydu yn cynnwys troseddau sy'n cynnwys defnyddio arf neu fygwth defnyddio arf fel ffactor gwaethygol.

Mae'r Canllaw yn datgan mai mater i'r llys dedfrydu yw penderfynu faint o bwysau y dylid ei roi ar y ffactorau gwaethygol a lliniarol, gan ystyried holl amgylchiadau'r trosedd a'r troseddwr.

Mae'r Canllaw yn glir na fydd pob ffactor sy'n berthnasol o reidrwydd yn dylanwadu ar y ddedfryd, ac y dylid bod yn ofalus i osgoi ffactorau sy'n cyfrif ddwywaith, gan gynnwys y rheini sydd eisoes yn cael eu hystyried wrth asesu beiusrwydd neu niwed neu'r ffactorau hynny sy'n rhan annatod o'r trosedd.

Mae'r Canllaw hefyd yn datgan y bydd ystyriaethau perthnasol sy'n ymwneud â'r ffactor gwaethygol o ran defnyddio arf neu fygwth defnyddio arf yn cynnwys pa mor beryglus yw'r arf; a oedd y troseddwr wedi dod â'r arf i'r lleoliad neu'n defnyddio'r hyn a oedd ar gael ar fympwy; a oedd y troseddwr wedi gwneud neu wedi addasu rhywbeth i'w ddefnyddio fel arf, a'r cyd-destun lle'r oedd yr arf yn cael ei fygwth, ei ddefnyddio neu ei gynhyrchu.

Mae'r sefyllfa hon hefyd yn amlwg mewn cyfraith achosion. Yn *R v M, AM, Kika* (2010), dywedodd y Llys bod defnyddio arf bob amser yn ffactor gwaethygol, er y caniateir hefyd ar gyfer y posibilrwydd nad yw hynny'n wir mewn amgylchiadau eithriadol. Rhoddir

enghreifftiau o'r amgylchiadau eithriadol hyn yn *R. v. Richardson (Adam)* (2006). Maen nhw'n cynnwys yr amgylchiadau lle cafodd cyllell ei chodi yn ystod ffrae ac yna'n cael ei defnyddio yn yr ymosodiad angheuol.

O ganlyniad, mae'r fframwaith yn ôl disgresiwn sydd ar waith ar hyn o bryd yn galluogi barnwyr i ystyried ffeithiau amrywiol pob achos.

## 2.3 Argymhellion mewn Perthynas â Throsedd Dynladdiad a'r Canllawiau Dedfrydu

**Argymhelliad 11: Ystyried Crogi yn Ffactor Gwaethygol**

Rydym yn argymell, mewn achosion o ddynladdiad drwy gyfrifoldeb lleiedig, y dylid ystyried diwygio canllawiau dedfrydu i wneud crogi yn ffactor gwaethygol sy'n cynyddu difrifoldeb.

**Argymhelliad 12: Ystyried Crogi yn Ffactor Gwaethygol**

Er mwyn cynnal cysondeb, rydym yn argymell, mewn achosion o ddynladdiad drwy golli rheolaeth, y dylid ystyried diwygio canllawiau dedfrydu i wneud crogi yn ffactor gwaethygol sy'n cynyddu difrifoldeb.

**Argymhelliad 13: Ystyried Rheolaeth drwy Orfodaeth yn Feiusrwydd Uwch ac Is**

Rydym yn argymell, mewn achosion o ddynladdiad, y dylid ystyried diwygio'r Canllawiau Dedfrydu i wneud rheolaeth drwy orfodaeth ar ran y sawl sy'n cyflawni'r trosedd yn ffactor sy'n cynyddu difrifoldeb. I'r gwrthwyneb, dylid ystyried gwneud rheolaeth drwy orfodaeth ar ran y dioddefwr yn ffactor lliniarol sy'n lleihau difrifoldeb.

**Argymhelliad 14: Ystyried Crogi nad yw'n Angheuol yn Ffactor Gwaethygol**

Rydym yn argymell y dylid ystyried diwygio'r Canllaw Diffiniol ar Gam-drin Domestig i ddynodi bod ymosodiadau a gyflawnir drwy grogi nad yw'n angheuol yn ffactor gwaethygol.

**Argymhelliad 15: Eithrio Defnyddio Arf fel Ffactor Gwaethygol**

Rydym yn argymell, mewn achosion o ddynladdiad domestig, y dylid ystyried diwygio'r Canllawiau Dedfrydu i ddangos nad yw defnyddio arf o reidrwydd yn ffactor gwaethygol.

**Argymhelliad 16: Ystyried Cymhelliant Rhywiol/'Rhyw Garw' yn Feiusrwydd Uwch**

Pan fydd marwolaeth yn digwydd yn ystod trais yr honnir ei fod yn gydsyniol yn ystod cyfarfyddiad rhywiol rhwng y sawl sy'n cyflawni'r trosedd a'r dioddefwr, os yw'r troseddwr yn cael ei gyhuddo o gyflawni gweithred anghyfreithlon dynladdiad neu ddynladdiad drwy esgeulustod difrifol, dylid categoreiddio'r lladdiad fel beiusrwydd Categori B.

Mae'r argymhellion hyn yn dod o dan gylch gwaith Cyngor Dedfrydu annibynnol Cymru a Lloegr, yn hytrach na'r Llywodraeth.

Sefydlwyd Cyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr ym mis Ebrill 2010 i hyrwyddo mwy o dryloywder a chysondeb wrth ddedfrydu, gan gynnal annibyniaeth y farnwriaeth ar yr un pryd. Mae'r Cyngor Dedfrydu yn gorff cyhoeddus anadrannol annibynnol.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am ddatblygu canllawiau dedfrydu, monitro'r defnydd o'r canllawiau hyn, ac asesu effaith canllawiau ar arferion dedfrydu. Efallai y bydd yn rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried effaith cynigion deddfwriaethol a pholisi sy'n ymwneud â dedfrydu, pan fydd y Llywodraeth yn gofyn iddo wneud hynny.

O dan adran 124 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ystyried cynnig gan yr Arglwydd Ganghellor i baratoi neu ddiwygio canllawiau dedfrydu. Gall hyn fod mewn perthynas â throsedd penodol, categori penodol o drosedd, categori penodol o droseddwyr, neu fater penodol sy'n effeithio ar ddedfrydu.

Ochr yn ochr â chyhoeddi'r Adolygiad ym mis Mawrth 2023, ysgrifennodd yr Arglwydd Ganghellor at y Cyngor i gynnig diwygio'r canllawiau dedfrydu yng ngoleuni Argymhelliad 16 yr Adolygiad.

Mae'r Cyngor wedi ystyried y cynnig hwn ac mae Cadeirydd y Cyngor wedi ymateb i'r Arglwydd Ganghellor, gan ddweud na fyddai'n briodol ystyried Argymhelliad 16 ar ei ben ei hun, ac y bydd y Cyngor yn aros am ymateb llawn y Llywodraeth i'r Adolygiad, er mwyn deall unrhyw oblygiadau sy'n codi o hynny. Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu sefydlu gweithgor i ystyried yr Adolygiad yn ei gyfanrwydd.

Yn dilyn y camau a gymerwyd ochr yn ochr â chyhoeddi'r Adolygiad ym mis Mawrth 2023, **mae'r Arglwydd Ganghellor wedi ysgrifennu at y Cyngor i gynnig eu bod yn diwygio'r canllawiau dedfrydu yng ngoleuni'r Adolygiad ac ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i gydweithio â'r Cyngor ynghylch yr Adolygiad, ei argymhellion ac ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad.**

## 2.4 Amddiffyniadau i Lofruddiaeth

**Argymhelliad 17: Amddiffyniadau i Lofruddiaeth**

Rydym yn argymell cynnal adolygiad cynhwysfawr o amddiffyniadau i lofruddiaeth ar ffurf ymgynghoriad cyhoeddus llawn sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid, gan gynnwys barnwriaeth y llysoedd uwch. Dylai hyn gynnwys craffu ar ôl y broses ddeddfu ar yr amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth, ystyried yr amddiffyniad o hunanamddiffyn, ac ystyried yr hyn y mae sylwebyddion wedi'i alw'n 'amddiffyniad rhyw garw'.

Fe wnaethom ofyn i Clare Wade KC, fel rhan o'i Hadolygiad, i ystyried y defnydd o amddiffyniadau i lofruddio gan ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr. Gofynnwyd iddi hefyd ystyried unrhyw wahaniaethau o ran canlyniadau achosion (gan gynnwys canlyniadau dedfrydu) sy'n deillio o ddefnyddio'r amddiffyniadau hyn, gan gynnwys amddiffyniadau rhannol, o'u cymharu â chyhuddiadau o lofruddiaeth lle nad oedd y dioddefwr wedi bod yn gamdriniwr.

Dywedodd Clare Wade KC yn ei Hadolygiad nad oedd hi, oherwydd diffyg adnoddau, yn gallu cynnal adolygiad llawn neu fanwl o'r amddiffyniadau troseddol mewn achosion o laddiadau domestig. Mae hyn wedi arwain at ei hargymhelliad y dylid cynnal adolygiad llawn a chynhwysfawr o'r amddiffyniadau i lofruddiaeth.

Ac eithrio gorfodaeth, gall amrywiaeth o amddiffyniadau cyffredinol fod yn berthnasol mewn achosion o lofruddiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, yr amddiffyniadau o gamgymeriad neu hunanamddiffyn. Os dadleuir yn llwyddiannus, bydd yr amddiffyniadau hyn yn arwain at ryddfarnu'r cyhuddedig o lofruddiaeth. Yn ogystal â'r amddiffyniadau llawn hyn, ceir amddiffyniadau rhannol i lofruddio hefyd. Yr amddiffyniadau rhannol yw cyfrifoldeb lleiedig, colli rheolaeth a lladd yn unol â chytundeb hunanladdiad. Mae amddiffyniadau rhannol yn wahanol i amddiffyniadau cyflawn megis hunanamddiffyn oherwydd, os dadleuir yn llwyddiannus, nid ydynt yn arwain at ryddfarn, yn hytrach maen nhw'n lleihau'r trosedd i weithred o ddynladdiad gwirfoddol, nid llofruddiaeth. Yn ogystal, mewn achos o fabanladdiad, ceir trosedd ar ei ben ei hun sy'n darparu rheithfarn amgen i lofruddio.

Rydym yn parhau i gredu y dylid archwilio'r defnydd o amddiffyniadau i lofruddiaeth mewn achosion cam-drin domestig, neu'r rhwystrau iddynt, ac felly rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r argymhelliad. Rydym hefyd yn cydnabod cymhlethdod y gyfraith yn y maes hwn a'r effeithiau ehangach y gallai unrhyw newidiadau i amddiffyniadau i lofruddiaeth eu cael. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod angen ymestyn adolygiad i bob amddiffyniad posibl ym mhob achos o lofruddiaeth. Byddai angen i hyn ystyried amddiffyniadau mewn achosion nad ydynt yn cael effaith wirioneddol ar laddiad domestig, a fyddai'n ychwanegu at gymhlethdod yr adolygiad, a byddai'n oedi ymhellach unrhyw gamau gweithredu ar y materion penodol y gofynnon ni i Clare Wade KC eu hystyried.

O ganlyniad, rydym yn derbyn yr argymhelliad yn rhannol, sef y byddwn yn comisiynu adolygiad mwy cyfyngedig. O ystyried y materion cyfreithiol cymhleth dan sylw, byddwn yn gwahodd Comisiwn y Gyfraith i wneud asesiad o'r defnydd o amddiffyniadau mewn llofruddiaeth ddomestig ac, yn benodol, i ystyried a oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod amddiffyniadau'n cael eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd, neu i wahanol effeithiau, yn dibynnu ar ryw'r diffynnydd. Os bydd Comisiwn y Gyfraith yn canfod tystiolaeth yn y cyswllt hwn, byddwn yn ystyried cynnal ail gam, gan ofyn i Gomisiwn y Gyfraith wneud argymhellion ar y ffordd orau o ddiwygio'r gyfraith i fynd i'r afael â'r materion hynny. Yn unol â'u harfer arferol, bydd Comisiwn y Gyfraith yn ymgynghori â'r cyhoedd a phartïon sydd â diddordeb.

# 3. Ymgynghoriad

Fel rhan o'r gwaith o fwrw ymlaen â'r ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad hwn, rydym yn glir y bydd rhai meysydd yn elwa o gael eu hystyried ymhellach. Ym mis Mawrth, gwnaethom ymrwymo i ymgynghori ar fan cychwyn 25 mlynedd ar gyfer llofruddiaethau a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y sawl a gyflawnodd y trosedd yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei ehangu i edrych ar y man cychwyn dedfrydu ar gyfer llofruddiaethau a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall a oedd eisoes yn lleoliad y trosedd.

25 mlynedd yw'r man cychwyn ar gyfer llofruddiaethau sy'n ymwneud â defnyddio arf sydd wedi cael ei gludo i leoliad y trosedd gyda bwriad. Rhoddwyd hyn ar waith i gydnabod difrifoldeb y meddiant anghyfreithlon a'r defnydd o gyllyll yn gyhoeddus. Codwyd pryderon ynghylch y gwahaniaeth rhwng y man cychwyn hwn a'r man cychwyn sylfaenol ar gyfer llofruddiaeth, sef 15 mlynedd, a fyddai'n berthnasol pe bai cyllell neu arf arall a ddefnyddiwyd eisoes yn lleoliad y trosedd (ac nid yw unrhyw amgylchiadau eraill o'r llofruddiaeth yn gymwys ar gyfer y mannau cychwyn 30 mlynedd neu Orchymyn Oes Gyfan). Mae'r gwahaniaeth hwn yn arbennig o berthnasol i achosion o lofruddiaeth ddomestig, sydd fel arfer yn cael eu cyflawni mewn cartref ac felly, hyd yn oed os defnyddir cyllell neu arf arall, mae'n fwy tebygol ei fod eisoes wedi bod yn lleoliad y trosedd.

Canfu'r Adolygiad Achos Cychwynnol, oherwydd y man cychwyn 25 mlynedd, fod y cwestiwn "A gafodd y gyllell neu'r arf a ddefnyddiwyd ei gario i leoliad y trosedd gyda bwriad?" yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i hyd cyffredinol y ddedfryd mewn achosion domestig. Ar gyfer llofruddiaethau domestig sy'n ddarostyngedig i'r man cychwyn 15 mlynedd, mae defnyddio ffactorau gwaethygol presennol yn aml yn golygu bod y cyfnod lleiaf a roddir yn fwy na 15 mlynedd, ond nid yw'n debygol o sicrhau cydraddoldeb â'r isafswm cyfnod a roddir ar gyfer yr achosion hynny sy'n ddarostyngedig i'r man cychwyn 25 mlynedd.

Fel y nodwyd yn ein hymateb, rydym yn derbyn nifer o'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad i gyflwyno ffactorau gwaethygol statudol newydd ar gyfer llofruddiaeth. Bydd y newidiadau hyn yn rhoi ystyriaeth arbenigol i lofruddiaethau domestig yn y fframwaith statudol am y tro cyntaf ac yn arwain at ddedfrydau hwy mewn llawer o'r achosion hyn. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn yr argymhelliad i ddatgymhwyso'r man cychwyn 25 mlynedd presennol ar gyfer llofruddiaethau sy'n ymwneud ag arf a gymerwyd i leoliad y trosedd mewn achosion domestig. Y rheswm am hyn yw y byddai gwneud hynny'n creu anghysondeb yn y ffordd y mae'r fframwaith yn ymateb i lofruddiaethau lle mae arf a ddefnyddiwyd wedi cael ei gario i leoliad y trosedd gyda bwriad, yn dibynnu ar natur y cysylltiad rhwng y dioddefwr a'r drwgweithredwr.

Byddwn yn archwilio'r materion hyn ymhellach drwy ymgynghoriad penodol sy'n ystyried presenoldeb ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, ac archwilio achosion o lofruddiaeth lle'r oedd yr arf a ddefnyddiwyd yn bresennol yn lleoliad y trosedd. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei lansio yn nes ymlaen eleni.

# 4. Y Camau Nesaf

## 4.1 Data a Hyfforddiant

### Llyfrgell Adolygu Lladdiadau Domestig

Mae’r Swyddfa Gartref newydd lansio fersiwn beta o’u llyfrgell ganolog newydd ar gyfer pob Adolygiad Lladdiad Domestig er mwyn gallu dadansoddi patrymau, tueddiadau a ffactorau risg yn llawer gwell. Bydd effaith hyn yn cael ei dadansoddi dros y misoedd nesaf.

### Hyfforddiant

Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i gyflwyno cwrs gloywi newydd ar gam-drin domestig, sy’n orfodol i bob erlynydd sy’n delio ag achosion o gam-drin domestig, gan gynnwys astudiaeth achos ar ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio’n agos gyda’r heddlu i ddatblygu modiwl ar gyfer ymchwilwyr eilaidd i’w ychwanegu at yr hyfforddiant Materion Cam-drin Domestig. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn datblygu ei fodiwl pwrpasol ei hun ar reolaeth drwy orfodaeth, stelcio ac effaith trawma ar ddioddefwyr cam-drin domestig i helpu erlynwyr i adnabod ac erlyn troseddau sy’n cael eu sbarduno gan ymddygiad yn well a rhoi’r newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 ar waith.

Ar y cyd â’r heddlu, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu Cynllun Cyfiawnder ar y Cyd ar gam-drin domestig a fydd yn gwella’r broses o ymchwilio, erlyn a delio â cham-drin domestig ar y cyd a sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr yn well.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn cysylltu eto â’r Uwch Farnwriaeth, Cymdeithas y Cyfreithwyr, yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, Cyngor y Bar a Bwrdd Safonau’r Bar i gynnig unrhyw wybodaeth berthnasol bellach i gefnogi unrhyw adolygiad a datblygiad posibl o hyfforddiant ar ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, yn enwedig yng ngoleuni unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy’n deillio o’n hymateb i’r Adolygiad.

## 4.2 Deddfwriaeth i Roi Ystyriaeth Arbenigol i Laddiadau Domestig yn y Fframwaith Dedfrydu

### Llofruddiaeth

Cyn cyhoeddi’r ymateb hwn, ym mis Mawrth 2023 fe wnaethom gyhoeddiad interim ochr yn ochr â chyhoeddi’r Adolygiad. Yn hyn o beth, fe wnaethom gyhoeddi y byddai’r

Llywodraeth yn derbyn yr argymhellion i wneud gor-ladd ac ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn ffactorau gwaethygol statudol, ac y byddem yn cyflwyno deddfwriaeth i wneud y newidiadau hyn cyn gynted â phosibl.

Gellir diwygio Atodlen 21 Deddf Dedfrydu 2020 drwy reoliadau sy’n ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ac mae gofyniad statudol i’r Arglwydd Ganghellor ymgynghori â Chyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr cyn gwneud hynny. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, mae’r Llywodraeth yn bwriadu gosod offeryn statudol drafft ar gyfer y mesurau canlynol, pan fydd amser seneddol yn caniatáu:

- Bydd trais sydd gyfwerth â gor-ladd yn cael ei wneud yn ffactor gwaethygol statudol ar gyfer llofruddiaeth.
- Bydd hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y drwgweithredwr yn erbyn y dioddefwr yn cael ei wneud yn ffactor gwaethygol statudol ar gyfer llofruddiaeth.
- Bydd hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y dioddefwr yn erbyn y drwgweithredwr yn cael ei wneud yn ffactor lliniarol statudol ar gyfer llofruddiaeth.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn cyflwyno deddfwriaeth pan fydd amser seneddol yn caniatáu ar gyfer y mesur canlynol:

- Bydd llofruddiaethau sy’n digwydd ar ddiwedd y berthynas neu pan fydd y dioddefwr wedi mynegi dymuniad i adael y berthynas yn cael eu gwneud yn ffactor gwaethygol statudol ar gyfer llofruddiaeth.

### Dynladdiad a’r Canllawiau Dedfrydu

Bydd y Cyngor Dedfrydu yn ystyried cynnig yr Arglwydd Ganghellor eu bod yn awr yn adolygu’r canllawiau dedfrydu yng ngoleuni’r Adolygiad ac ymateb y Llywodraeth i’r Adolygiad.

Mae’r Llywodraeth yn ymrwymo i gydweithio â’r Cyngor ynghylch yr Adolygiad, ei argymhellion ac ymateb y Llywodraeth i’r Adolygiad.

## 4.3 Adolygiad o Amddiffyniadau i Lofruddiaeth

Byddwn yn datblygu cylch gorchwyl ar gyfer asesiad Comisiwn y Gyfraith o’r defnydd o amddiffyniadau mewn achosion llofruddiaeth ddomestig.

## 4.4 Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Ddiwygio Pellach

Yn ddiweddarach eleni, bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei lansio, yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylid cael man cychwyn o 25 mlynedd ar gyfer achosion o lofruddiaeth lle mae’r troseddwr wedi rheoli neu orfodi’r dioddefwr cyn ei ladd. Bydd yr

ymgynghoriad hwn hefyd yn edrych ymhellach ar y man cychwyn dedfrydu ar gyfer llofruddiaethau a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall a oedd eisoes yn lleoliad y trosedd.

# 5. Datganiad Cydraddoldeb

Dylid darllen y Datganiad Cydraddoldeb hwn ochr yn ochr ag ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig ('ymateb y Llywodraeth').

## 5.1 Dyletswydd Cydraddoldeb

Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a mathau eraill o ymddygiad a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Hybu cyfleoedd cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt); a
- Meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol (y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt).

Mae angen ystyried 'sylw dyledus' yn gymesur yn erbyn naw "nodwedd warchodedig" Deddf Cydraddoldeb 2020 – sef hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'r Datganiad hwn yn ystyried effeithiau posibl y newidiadau arfaethedig ar y nodweddion gwarchodedig y mae gennym ddata ar eu cyfer: hil, rhyw ac oedran.

## 5.2 Data Cydraddoldeb

Roedd y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad yn darparu ar gyfer archwilio achosion o laddiadau domestig (a erlynwyd naill ai fel llofruddiaeth neu ddynladdiad) lle mae unigolyn wedi achosi marwolaeth partner agos neu gyn-bartner agos. Cyn penodi adolygydd annibynnol, cynhaliwyd Adolygiad Achos Cychwynnol.

Wrth ystyried effaith bosibl argymhellion yr Adolygiad ar y nodweddion gwarchodedig, rydym wedi dadansoddi'r data perthnasol sydd ar gael o'r 120 achos o'r Adolygiad Achos Cychwynnol ('y sampl achosion'). Mae'r data hwn yn ymwneud â'r nodweddion

gwarchodedig hil, rhyw ac oedran (gweler Atodiad A).[15] Lle bo'n berthnasol, darperir data ar y boblogaeth gyffredinol, poblogaeth carchardai a dedfrydu er mwyn cymharu.

Ar ben hynny, o fewn y sampl o 120 o achosion llofruddiaeth a dynladdiad, rydym wedi nodi is-set o 68 o achosion llofruddiaeth sy'n debygol o gael eu heffeithio gan newidiadau deddfwriaethol y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu gwneud mewn ymateb i'r Adolygiad. Y rheswm am hyn yw bod amgylchiadau penodol yr achosion hyn yn berthnasol i'r ffactorau gwaethygol a lliniarol ychwanegol arfaethedig. Rydym wedi nodi lle gallai'r is-set hwn o 68 o achosion gael eu heffeithio'n wahanol, o gymharu ag effaith bosibl newid a fyddai'n berthnasol i'r sampl cyfan o 120 o achosion.

Mae'r dadansoddiad hwn yn oddrychol ei natur, gan ddibynnu ar werthusiad o'r sylwadau dedfrydu. Nid yw'n bosibl pennu'r addasiad penodol y gellir ei wneud ar gyfer ffactorau gwaethygol neu liniarol unigol, ac felly sut yr effeithir ar ddedfrydau a'r canlyniadau ôl-ddilynol i'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig penodol. Mae dedfrydu'n dibynnu ar ffeithiau'r achos, a mater i'r llys yw penderfynu faint o bwysau y dylid ei roi i ffactorau gwaethygol neu liniarol, a'r isafswm tariff sy'n deillio o hynny.

### Argaeledd a chyfyngiadau data

Mae manylion yr adolygiad o'r sampl achosion a'r data ar eu nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys cyfyngiadau, wedi'u nodi yn Atodiad A. Mae gan 115 o'r 120 achos ddata ar hil sydd ar gael. Mae'r data hwn yn cael ei gategoreiddio gan ddefnyddio dosbarthiad a nodir gan swyddogion ac, o ganlyniad, efallai na fydd modd ei gymharu'n uniongyrchol ag ethnigrwydd yr unigolyn ei hun. Mae gan 115 o'r 120 achos ddata ar oedran y drwgweithredwyr. Ar gyfer dadansoddi hil ac oedran, mae achosion lle nad oes data ar gael wedi cael eu heithrio o'r dadansoddiad. Mae gan bob un o'r 120 achos ddata ar ryw, sydd ar gael.

Roedd cwmpas yr Adolygiad, ac felly'r 120 o achosion yn y sampl achosion, wedi'u cyfyngu i achosion lle'r oedd y dioddefwr yn bartner neu'n gyn-bartner i'r troseddwr. Fodd bynnag, mae rhai o'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad a'r newidiadau deddfwriaethol y mae'r Llywodraeth wedi'u cynnig mewn ymateb yn golygu y bydd eu gweithredu yn golygu diwygiadau i Atodlen 21 a fydd yn berthnasol i berthnasoedd eraill mewn cyd-destun domestig (ar gyfer y ffactor gwaethygol a lliniarol mewn perthynas ag ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol) ac i bob achos, boed hynny mewn cyd-destun domestig ai peidio (ar gyfer y ffactor gwaethygol sy'n gysylltiedig â gor-ladd). Nid oes gennym ddata ar hyn o bryd ar ba mor gyffredin yw gor-ladd mewn llofruddiaethau annomestig ac felly nid ydym wedi gallu ystyried effeithiau posibl y newidiadau ar nodweddion gwarchodedig y garfan ehangach hon. Fodd bynnag, rydym o'r farn, i'r graddau y mae'r newidiadau

[15] Fel y nodir yn Atodiad A, nodwyd data ar ryw drwy sylwadau dedfrydu, tra bod data ar ethnigrwydd ac oedran yn cael ei gymryd o Fynegai Lladdiadau'r Swyddfa Gartref (cafwyd dau doriad o'r data - fel ar 15 Rhagfyr 2020 ac ar 2 Rhagfyr 2022; mae'r ffigurau'n amodol ar gael eu diwygio wrth i'r heddlu a'r llysoedd ddelio ag achosion, neu wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael).

arfaethedig yn cael effaith wahaniaethol anuniongyrchol ar grwpiau eraill, y byddai unrhyw effaith o'r fath yn ffordd gymesur o gyflawni'r nod polisi dilys o sicrhau bod y niweidiau penodol sy'n gysylltiedig â gor-ladd yn cael eu cydnabod yn briodol yn y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.

## Nodweddion gwarchodedig

### *Hil*[16]

Roedd 92 (80% o'r rheini â data ar ethnigrwydd ar gael) o'r troseddwyr yn y sampl achosion yn wyn neu'n wyn Prydeinig, roedd 12 (10%) yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig, roedd 8 (7%) yn ddu neu'n ddu Prydeinig, ac roedd 3 (3%) wedi'u categoreiddio fel 'arall'.

Mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn cynrychioli 27% o boblogaeth y carchar,[17] gan gynnwys 12% du neu ddu Prydeinig, 8% Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, 5% grŵp ethnig cymysg. Yn y boblogaeth gyffredinol, mae 18% yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig,[18] gan gynnwys 9% Asiaidd, 4% du, 3% cymysg a 2% arall. Yn y sampl achosion, mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 20% o'r drwgweithredwyr. Yn 2022, roedd 21% o'r rheini a gafwyd yn euog o drosedd yn dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig[19] (lle cofnodwyd ethnigrwydd).

Wrth ystyried y 68 o achosion llofruddiaeth penodol y mae'r newidiadau arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt, mae gwahaniaeth mewn ethnigrwydd o'i gymharu â'r sampl achosion cyfan: mae cyfran y drwgweithredwyr o leiafrifoedd ethnig yn codi o 20% i 26%. Fodd bynnag, mae hyn yn is na'r hyn a welwyd ar gyfer euogfarnau llofruddiaeth yn gyffredinol. Yn 2022, roedd 45% o'r rheini a gafwyd yn euog o lofruddiaeth yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig.[20]

### *Rhyw*

Roedd 99 o'r 120 (83%) o ddrwgweithredwyr yn y sampl achosion yn ddynion, ac roedd 21 o'r 120 (18%) yn fenywod.[21] Mewn cymhariaeth, mae dynion yn cynrychioli 49% o'r

---

16 Nid oes modd cymharu ffigurau ar gyfer grwpiau ethnig penodol yn uniongyrchol ar draws gwahanol ffynonellau oherwydd dulliau categoreiddio gwahanol.

17 Poblogaeth Flynyddol y Carchar: 2022, Ystadegau rheoli troseddwyr bob chwarter: Mis Ionawr i fis Mawrth 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

18 Data Cyfrifiad 2021, Grŵp ethnig, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

19 Canlyniadau yn ôl arf data Trosedd, Ystadegau'r System Cyfiawnder Troseddol bob chwarter: Rhagfyr 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

20 Canlyniadau yn ôl arf data Trosedd, ystadegau'r System Cyfiawnder Troseddol bob chwarter: Rhagfyr 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

21 Nid yw'r canrannau'n cyfuno i greu 100% oherwydd talgrynnu.

boblogaeth gyffredinol,[22] 96% o boblogaeth y carchar[23] a 78% o'r troseddwyr a gafwyd yn euog yn 2022.[24]

Ar gyfer llofruddiaeth, roedd 81 o'r 89 (91%) o ddrwgweithredwyr yn y sampl achosion yn ddynion, ac roedd 8 (9%) yn fenywod. [25] Yn yr un modd, roedd 94% o euogfarnau am lofruddiaeth yn 2022 yn cynnwys diffynyddion gwrywaidd.[26]

Wrth ystyried y 68 achos penodol o lofruddiaeth y mae'r newidiadau arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt, roedd 67 (99%) o'r drwgweithredwyr yn wrywaidd. O'r drwgweithredwyr gwrywaidd hyn, yr effaith debygol ar 66 o'r 67 achos (99%) yw cynnydd mewn dedfryd o ganlyniad i'r ffactorau gwaethygol ychwanegol arfaethedig. Ar gyfer yr 1 (1%) drwgweithredwr benywaidd, mae'r effaith debygol ar yr achos hwn yn ansicr oherwydd bod ffactor gwaethygol a lliniarol ychwanegol yn bresennol.

Er mai dim ond i achosion llofruddiaeth y bydd y newidiadau arfaethedig yn berthnasol, rydym yn ymwybodol, pe bai'r Cyngor Dedfrydu annibynnol yn gwneud y newidiadau cyfatebol mewn ymateb i'r argymhellion sy'n ymwneud â dynladdiad, y gallai'r effaith mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig 'rhyw' fod yn wahanol. Ar gyfer dynladdiad, roedd 18 o'r 31 o ddrwgweithredwyr (58%) yn y sampl achosion yn ddynion, ac roedd 13 (42%) yn fenywod. [27]

### *Oedran*

Oedran cyfartalog y drwgweithredwyr ar draws pob achos yn y sampl yw 43. Adeg y cyfrifiad diweddaraf,[28] yr oedran canolrifol yng Nghymru a Lloegr oedd 40, ac mae dros hanner (52%) y boblogaeth carchardai a ddedfrydwyd rhwng 30 a 49 oed.[29]

Mae'r ystod o oedrannau drwgweithredwyr yn y sampl achosion yn amrywio o 17 i 84.

---

[22] Data Cyfrifiad 2021, Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021, data heb ei dalgrynnu, 2 Tachwedd 2022, Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

[23] Poblogaeth Flynyddol y Carchar, ar ddiwedd mis Mehefin 2022: 2022, Ystadegau rheoli troseddwyr bob chwarter:Mis Ionawr i fis Mawrth 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

[24] Canlyniadau yn ôl arf data Trosedd, ystadegau'r System Cyfiawnder Troseddol bob chwarter:Rhagfyr 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

[25] Appendix D, Domestic Homicide Sentencing Review (publishing.service.gov.uk)

[26] Canlyniadau yn ôl arf data Trosedd, ystadegau'r System Cyfiawnder Troseddol bob chwarter:Rhagfyr 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

[27] Appendix D, Domestic Homicide Sentencing Review (publishing.service.gov.uk)

[28] Data Cyfrifiad 2021, Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021, data heb ei dalgrynnu, 2 Tachwedd 2022, Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

[29] Poblogaeth Flynyddol y Carchar, ar ddiwedd mis Mehefin 2022: 2022, Ystadegau rheoli troseddwyr bob chwarter:Mis Ionawr i fis Mawrth 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

Wrth ystyried y 68 achos penodol o lofruddiaeth y byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt, mae'r proffil oedran ychydig yn iau, gydag oed cyfartalog y drwgweithredwyr yn 39, yn bennaf oherwydd bod llai o achosion gyda drwgweithredwyr dros 60 oed. Gwelir hyn hefyd yn ehangach mewn euogfarnau llofruddiaeth. Yn 2022, roedd 70% o'r rheini a gafwyd yn euog o lofruddiaeth rhwng 18 a 39 oed, gyda dim ond 3% yn 60 oed neu'n hŷn.[30]

*Cyfeiriadedd rhywiol*

Er nad oes data ar gael ar gyfeiriadedd rhywiol drwgweithredwyr neu ddioddefwyr, roedd pob un o'r 99 o achosion gyda drwgweithredwyr gwrywaidd yn cynnwys troseddau yn erbyn menywod.[31] Roedd 20 o'r 21 achos a oedd yn cynnwys drwgweithredwyr benywaidd yn cynnwys troseddau yn erbyn dynion, ac roedd gan yr un achos arall ddrwgweithredwr a dioddefwr benywaidd. O'r herwydd, roedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr (n=100, 83%) yn fenywod.

## 5.3 Ystyriaethau Cydraddoldeb

### Gwahaniaethu uniongyrchol

Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pan fyddai polisi yn arwain at drin pobl yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig. Ein hasesiad yw nad yw'r newidiadau arfaethedig yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb.

Bydd gweithredu'r newidiadau arfaethedig yn dibynnu ar amgylchiadau penodol achos sy'n ymwneud â difrifoldeb a niweidiau ehangach lladdiadau domestig a bydd yr un mor berthnasol i bob troseddwr, waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. O ganlyniad, nid ydym yn credu y byddai'r cynigion yn golygu bod pobl yn cael eu trin yn llai ffafriol yn uniongyrchol oherwydd bod ganddynt unrhyw nodwedd warchodedig benodol.

### Gwahaniaethu anuniongyrchol

Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fydd polisi yr un mor berthnasol i bob unigolyn ond byddai'n rhoi'r rheini sydd â nodwedd warchodedig benodol o dan anfantais benodol o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno. Ein hasesiad yw nad yw'r newidiadau hyn yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb.

Yn rhinwedd gorgynrychiolaeth y grŵp hwn yn y garfan o droseddwyr y bydd y newidiadau hyn yn berthnasol iddynt, rydym yn cydnabod bod y newidiadau hyn yn fwy tebygol o effeithio ar ddynion sy'n troseddu. Yn gyffredinol, mae dynion yn cael eu gorgynrychioli ar y rhan fwyaf o gamau drwy'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys mewn perthynas

[30] Canlyniadau yn ôl arf data Trosedd, ystadegau'r System Cyfiawnder Troseddol bob chwarter:Rhagfyr 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

[31] Atodiad D, Adolygiad Dedfrydu Dynladdiad Domestig (publishing.service.gov.uk)

â throseddau lladd. Ar ben hynny, roedd y rhan fwyaf (99%) o’r 68 achos penodol o lofruddiaeth sy’n debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig yn cynnwys drwgweithredwyr gwrywaidd.

Fodd bynnag, nid ydym o’r farn y bydd y gorgynrychiolaeth hon yn debygol o arwain at unrhyw anfantais benodol i droseddwyr sy’n ddynion nac i unrhyw droseddwyr eraill sydd â nodweddion gwarchodedig penodol. Ein hasesiad yw bod y newidiadau a ddisgrifir yn y cynigion polisi hyn yn ffordd gymesur o gyflawni’r nod polisi cyfreithlon o sicrhau bod difrifoldeb llofruddiaethau domestig a’r niweidiau penodol ac ehangach sy’n codi yn yr achosion hyn yn cael ei adlewyrchu yn y fframwaith dedfrydu. Yn gyffredinol, felly, nid ydym yn credu bod y newidiadau arfaethedig hyn yn debygol o arwain at unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon.

### Aflonyddu ac erledigaeth

Nid ydym yn credu bod risg o aflonyddu nac erledigaeth o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb o ganlyniad i’r newidiadau hyn.

### Hyrwyddo cyfle cyfartal

Ystyrir bod yr argymhellion polisi cyffredinol yn debygol o hyrwyddo cyfle cyfartal i fenywod drwy alluogi mwy o amddiffyniad drwy gryfhau dedfrydau ar gyfer achosion o laddiadau domestig.

### Meithrin perthnasoedd da

Nid ydym yn credu y byddai’r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar gyflawni’r amcan hwn.

### Monitro a gwerthuso

Byddwn yn parhau i roi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth i baratoadau gael eu gwneud i gyflwyno’r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig.

# Atodiad A: Data Sampl Achos ar Nodweddion Gwarchodedig

## Cyd-destun

Mae'r Atodiad hwn yn nodi nodweddion y sampl adolygiadau achos a ddefnyddiwyd i lywio'r Datganiad Cydraddoldeb.

Cafodd yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig ei lywio gan y data a'r dystiolaeth ganlynol:

a) Cafodd data ar laddiadau domestig a gofnodwyd gan yr heddlu rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2020 o Fynegai Lladdiadau'r Swyddfa Gartref ei rannu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi'r Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig. Yn unol â diffiniad yr adolygiad o 'domestig', dim ond achosion o laddiadau lle'r oedd y drwgweithredwr yn bartner agos a/neu'n gyn-bartner a gynhwyswyd yn y data a dderbyniwyd. Cyhoeddwyd crynodeb o'r data hwn yn yr Adolygiad yn Atodiad E.
b) Dadansoddwyd Adolygiad Achos Cychwynnol o sylwadau dedfrydu sampl o 120 o achosion o laddiadau domestig (achosion llofruddiaeth a dynladdiad) rhwng 2018 a 2020 lle'r oedd y dioddefwr yn bartner neu'n gyn-bartner i'r troseddwr. Nodwyd yr achosion o ddata a ddarparwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron/HMCTS, Mynegai Lladdiadau'r Swyddfa Gartref a rhywfaint o waith ymchwil ad hoc. Cyhoeddwyd crynodeb o'r canfyddiadau fel rhan o'r Adolygiad, yn Atodiad D.

### Nodiadau ar Ddata Lladdiadau'r Swyddfa Gartref

- Mae'r data yn gywir, ar yr adeg pan gafodd ei ddarparu.[32] Mae'r ffigurau'n cael eu diwygio wrth i'r heddlu a'r llysoedd ddelio ag achosion, neu wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.
- At ddibenion y Mynegai Lladdiadau, mae dadansoddiadau'n seiliedig ar y prif berson a amheuir mewn achos o laddiad penodol.[33]

[32] Darparwyd data i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar 15 Rhagfyr 2020 ac ar 2 Rhagfyr 2022.

[33] Diffinnir unigolion a amheuir mewn achosion o ladd fel naill ai: person sydd wedi'i gyhuddo o drosedd lladd, gan gynnwys y rheini a gafwyd yn euog yn ddiweddarach a'r rheini sy'n aros am dreial, neu berson yr amheuir gan yr heddlu o fod wedi cyflawni'r trosedd ond y gwyddys ei fod wedi marw neu wedi marw drwy hunanladdiad. Cafodd y rheini a gafwyd yn ddieuog o drosedd eu cynnwys yn y data a gafwyd a'u dadansoddi fel rhan o'r Adolygiad, sy'n gwyro oddi wrth yr ystadegau a gyhoeddwyd.

### Nodiadau ar yr adolygiad ffeiliau achos o sylwadau dedfrydu

- Efallai nad yw pob achos perthnasol o'r cyfnod a adolygwyd wedi cael ei nodi ac felly efallai nad yw'r sampl yn gwbl gynrychioliadol.
- Mae'r dadansoddiad a nodir isod yn cynnwys tynnu is-set o sampl yr adolygiad achos allan ar sail presenoldeb rhai ffactorau. Gan fod sylwadau dedfrydu yn grynodeb o sut y cyrhaeddwyd y ddedfryd ac nad ydynt yn cynrychioli'r achos yn llawn, ac o gofio nad yw pob achos o gam-drin domestig yn cael ei riportio, ni allwn fod yn sicr nad oedd y ffactorau hyn yn bresennol mewn achosion eraill yn y sampl. Ar ben hynny, roedd elfen o ddehongli goddrychol ar bresenoldeb rhai ffactorau, fel gor-ladd.
- Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli niferoedd bach i lunio casgliadau.
- Mae data o'r ffynonellau hyn wedi cael ei ddefnyddio i lywio'r Datganiad Cydraddoldeb sydd wedi'i gynnwys yn yr ymateb hwn, ar y 120 o achosion sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad o ffeiliau achos a gynhaliwyd, ac wrth edrych ar garfan benodol o fewn y sampl hwn (68 o achosion) y nodwyd eu bod yn fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau a nodir yn yr ymateb hwn. Mae'r is-set hon yn cynnwys achosion o lofruddiaeth sy'n cynnwys gor-ladd; hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y drwgweithredwr; y lladdiad yn digwydd ar ôl i berthynas ddod i ben; neu gam-drin domestig gan y dioddefwr yn erbyn y drwgweithredwr.
- Roedd llawer o'r achosion llofruddiaeth a adolygwyd yn cynnwys mwy nag un o'r ffactorau hyn. Er enghraifft, mewn mwy na dwy ran o dair (68%) o achosion o lofruddiaeth a oedd yn cynnwys gor-ladd, roedd hefyd hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y drwgweithredwr yn erbyn y dioddefwr; ac mewn bron i ddwy ran o bump (38%) o achosion gor-ladd, roedd y llofruddiaeth wedi digwydd ar ddiwedd y berthynas. Mewn llofruddiaethau a ddigwyddodd ar ddiwedd y berthynas, roedd bron i ddwy ran o dair (62%) yn ymwneud ag ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y drwgweithredwr. Roedd hyn hyd yn oed yn uwch ar gyfer achosion o lofruddiaeth a oedd yn cynnwys diwedd perthynas a/neu genfigen, gyda dros ddwy ran o dair (67%) o'r achosion hyn hefyd yn cynnwys ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y drwgweithredwr.

## Data ar Nodweddion Gwarchodedig

Cafodd data ar ryw'r drwgweithredwr a'r dioddefwr ei gynnwys yn yr adolygiad o ffeiliau achos. Cymerwyd data ar oedran (ar adeg y trosedd) ac ethnigrwydd yr unigolyn a amheuir o Fynegai Lladdiadau'r Swyddfa Gartref lle'r oedd ar gael.

Mae crynodeb o'r data ar nodweddion gwarchodedig y sampl adolygiadau achos a'r is-set o achosion llofruddiaeth penodol yn cael eu coladu a'u nodi isod. Efallai na fydd y canrannau mewn tablau yn cyfuno i greu 100% oherwydd talgrynnu.

### *Rhyw*

**Tabl 1: Sampl o'r adolygiad achos yn ôl rhyw'r drwgweithredwr**

| Rhyw | Sampl llawn (120 o achosion) | Is-set o achosion llofruddiaeth (68 achos) |
|---|---:|---:|
| Gwryw | 99 (83%) | 67 (99%) |
| Benyw | 21 (18%) | 1 (1%) |

Ffynhonnell: Nodwyd rhyw'r drwgweithredwr o'r sylwadau dedfrydu.

### *Ethnigrwydd*

**Tabl 2: Sampl o'r adolygiad achos yn ôl ethnigrwydd yr unigolyn a amheuir**

| Ethnigrwydd | Sampl llawn (120 o achosion) | Is-set o achosion llofruddiaeth (68 achos) |
|---|---:|---:|
| Gwyn | 92 (77%) | 49 (72%) |
| Du | 8 (7%) | 5 (7%) |
| Asiaidd | 12 (10%) | 9 (13%) |
| Arall | 3 (3%) | 3 (4%) |
| Anhysbys | 5 (4%) | 2 (3%) |

Ffynhonnell: Cymerwyd data ar ethnigrwydd yr unigolyn a amheuir o Fynegai Lladdiadau'r Swyddfa Gartref.

### *Oedran*

**Tabl 3: Sampl o'r adolygiad achos yn ôl oedran yr unigolyn a amheuir**

| Oedran | Sampl llawn (120 o achosion) | Is-set o achosion llofruddiaeth (68 achos) |
|---|---:|---:|
| Dan 18 oed | 1 (1%) | 1 (1%) |
| 18 i 24 | 6 (5%) | 3 (4%) |
| 25 i 29 | 12 (10%) | 10 (15%) |
| 30 i 39 | 41 (34%) | 25 (37%) |
| 40 i 49 | 18 (15%) | 11 (16%) |
| 50 i 59 | 18 (15%) | 14 (21%) |
| 60 i 69 | 12 (10%) | 0 |
| 70 neu hŷn | 7 (6%) | 2 (3%) |
| Anhysbys | 5 (4%) | 2 (3%) |
| Oedran cyfartalog | 43 | 39 |

| Oedran | Sampl llawn (120 o achosion) | Is-set o achosion llofruddiaeth (68 achos) |
|---|---:|---:|
| Ystod | 17 – 84 | 17 – 73 |

Ffynhonnell: Cymerwyd data ar oedran yr unigolyn a amheuir o Fynegai Lladdiadau'r Swyddfa Gartref.

E02945729

978-1-5286-4355-9